



Home Office

Dau fesur deddfwriaethol i wella ymateb gorfodi'r gyfraith i droseddau difrifol a threfnedig

Ymgynghoriad y llywodraeth

Mae'r ymgynghoriad hwn yn dechrau ar 24th Ionawr 2023

Daw'r ymgynghoriad hwn i ben ar 21st Mawrth 2023

Ynglŷn â'r ymgynghoriad hwn

I: Mae'r ymgynghoriad hwn ar agor i'r cyhoedd.

Mae gennym ddiddordeb arbennig i glywed gan y rhai y gallai'r cynigion effeithio arnynt pe bydden nhw'n dod yn ddeddfwriaeth, gan gynnwys ymarferwyr gorfodi'r gyfraith, busnesau, gweithwyr proffesiynol cyfreithiol ac aelodau'r cyhoedd, yn ogystal â sefydliadau anllywodraethol sy'n canolbwyntio ar hawliau sifil a hawliau dynol.

Hyd: 8 wythnosau o 24th Ionawr 2023 i 21st Mawrth 2023

Anfonwch ymholiadau Mailroom
(gan gynnwys ceisiadau Serious and Organised Crime Consultation
am y papur mewn fformat Public Safety Group
amgen) i: Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF
United Kingdom

SeriousAndOrganisedCrimeConsultation@homeoffice.gov.uk

Sut i ymateb: Rhowch eich ymateb erbyn 17:00 ar 21st Mawrth 2023 drwy'r ffurflen ar-lein yn:
<https://www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/s/YCIQTE/>

Ffyrdd ychwanegol o Os na allwch ddefnyddio'r system ar-lein, er enghraifft
ymateb: oherwydd eich bod yn defnyddio meddalwedd hygyrchedd arbenigol nad yw'n gydnaws â'r system, gallwch lawrlwytho fersiwn dogfen Word o'r ffurflen ar-lein a'i hanfon trwy e-bost neu ei phostio i'r manylion cyswllt uchod.

Cysylltwch hefyd â'r manylion uchod os oes angen gwybodaeth arnoch mewn fformat arall, fel "hawdd ei ddarllen", print bras, Braille, sain neu iaith arall.

Efallai na fyddwn yn gallu dadansoddi ymatebion nas cyflwynir yn y fformatau a ddarparwyd fel hyn.

Papur ymateb: Mae disgwyl i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gael ei gyhoeddi gan Mehefin 2023 ar: www.gov.uk

Cynnwys

Cynnwys	3
Rhagair	4
Crynodeb gweithredol	6
Cyflwyniad	9
Mesurau	11
Mesur 1: Troseddau newydd i droseddu gwneud, addasu, cyflenwi, cynnig cyflenwi a meddu ar erthyglau i'w defnyddio mewn troseddu difrifol	11
Mesur 2: Cynigion i gryfhau a gwella gweithrediad Gorchmynion Atal Troseddu Difrifol (SCPOs)	25
Amdanoch chi	35
Holiadur	36
Mesur 1: Troseddau newydd i droseddoli gwneud, addasu, cyflenwi, cynnig cyflenwi a meddu ar erthyglau i'w defnyddio mewn troseddu difrifol	36
Mesur 2: Cynigion i gryfhau a gwella gweithrediad Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol (SCPOs)	46
Effeithiau Cydraddoldeb	53
Manylion cyswllt a sut i ymateb	54
Cwynion neu sylwadau	54
Copïau ychwanegol	54
Cyhoeddi ymateb	54
Grwpiau cynrychioladol	54
Egwyddorion yr ymgynghoriad a nodyn diogelu data	55

Rhagair

Mae troseddu'n dinistrio bywydau, yn difetha cymdogaethau ac yn niweidio ein heconomi. Mae'n gwneud i bobl deimlo'n anniogel ar y strydoedd ac yn eu cartrefi ac mae'n ein dal yn ôl yn ein cenhadaeth i ddilyn twf economaidd.

Mae'r Llywodraeth wedi ymrwymo i orchfygu troseddu. Ond ni allwn lwyddo yn y genhadaeth hon heb ymgymryd â'r gangiau troseddu cyfundrefnol sy'n ysglyfaethu ar y cymunedau bregus, yn rheoli cymunedau ac yn tanseilio ein ffyniant a'n sefydliadau. Rhaid dilyn grwpiau troseddu cyfundrefnol, a'r galluogwyr proffesiynol sy'n "troi llygad ddall" i weithgarwch anghyfreithlon wrth elwa eu hunain, gyda grym llawn y gyfraith.

Oherwydd mai sicrhau bod yr Ysgrifennydd Cartref yn diogelu'r cyhoedd yw fy mlaenoriaeth uchaf. Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i arfogi ein hasiantaethau gorfodi'r gyfraith gyda'r offer a'r pwerau cyfreithiol sydd eu hangen arnynt i fynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig ac i achub y blaen ar y troseddwy'r mwyaf dyfeisgar a di-baid sy'n gweithredu yn y DU ar hyn o bryd.

Mae'r Llywodraeth eisoes wedi cymryd camau sylweddol i wella ymateb y DU i droseddau difrifol a threfnedig:

- fel rhan o'n maniffesto, fe wnaethom ymrwymiad i gryfhau'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol (NCA) fel y gall fynd i'r afael â'r bygythiadau sy'n ein hwynebu – o dwyll, gangiau llinellau cyffuriau a cham-drin plant yn rhywiol i gyllid anghyfreithlon, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl;
- o dan Adolygiad Integredig 2021 o Ddiogelwch, Amddiffyn, Datblygu a Pholisi Tramor ("yr Adolygiad Integredig"), fe wnaethom ymrwymo i gryfhau'r ymateb i'r bygythiadau troseddu difrifol a threfnedig mwyaf dybryd sy'n wynebu'r DU ar hyn o bryd, lleihau ein bregusrwydd i'r bygythiadau hyn yn y tymor hwy, cryfhau'r NCA a chynyddu'r capasiti plismona rhanbarthol a lleol¹;
- ers Gwanwyn 2020, mae'r ymagwedd ar y cyd rhwng yr NCA, Unedau Troseddau Cyfundrefnol Rhanbarthol (ROCUs), plismona, Gwasanaeth Eryl y Goron (CPS) a'r Llywodraeth wedi arwainat lwyddiant ysgubol Operation Venetic, y gweithrediad gorfodi'r gyfraith mwyaf o'i fath yn hanes y DU, gan gynnwys arestio 2,864 o bobl dan amheuaeth, atafael dros £76 miliwn mewn arian troseddol, 170 o arfau tanio, 3,404

¹ Swyddfa'r Cabinet, Prydain Fyd-eang mewn Oes Gystadleuol: yr Adolygiad Integredig o Ddiogelwch, Amddiffyn, Datblygu a Pholisi Tramor, Mawrth 2021: <https://www.gov.uk/government/publications/global-britain-in-a-competitive-age-the-integrated-review-of-security-defence-development-and-foreign-policy>

rownd o getris a 18 tunnell o gyffuriau Dosbarth A a Dosbarth B a lliniaru dros 200 o fygythiadau i fywydau pobl²; a

- mae'r Llywodraeth yn buddsoddi yn y galluoedd arbenigol hanfodol sydd eu hangen i fynd i'r afael â throseddau difrifol a threfnedig, gan gynnwys casglu data a rhannu cudd-wybodaeth. Er enghraifft, yn Adolygiad Gwariant 2021 ymrwymodd y Llywodraeth Godiad o tua £100miliwn dros dair blynedd ar gyfer galluoedd strategol, gan ddod â chyfanswm y portffolio ariannu yn y maes hwn i £484miliwn dros gyfnod yr Adolygiad Gwariant. Mae'r buddsoddiad hwn yn adeiladu galluoedd ar lefel genedlaethol a rhanbarthol, gan helpu'r NCA, yr heddlu a sefydliadau partner i amddiffyn y cyhoedd rhag y troseddwyr mwyaf soffistigedig a niweidiol o safbwynt technolegol, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â'r fasnach cyffuriau anghyfreithlon.

Ond mae mwy i'w wneud o hyd a rhaid i ni beidio llaesu dwylo. Mae'r bygythiadau sy'n ein hwynebu yn datblygu'n gyson. Mae troseddwyr wedi bod yn wydn yn wyneb pandemig y coronafeirws ac maent yn manteisio'n gynyddol ar fannau ar-lein, technolegau sy'n dod i'r amlwg ac offer sydd ar gael yn fasnachol er mwyn osgoi cael eu canfod ac osgoi ein deddfwriaeth.

Rwy'n croesawu eich mewnbwn ar y ddau gynnig hyn ar gyfer deddfwriaeth bosibl yn y dyfodol i wella'r ymateb i'r bygythiad o droseddau difrifol a threfnedig, er mwyn sicrhau bod ein hasiantaethau gorfodi'r gyfraith yn parhau i fod o flaen y gromlin ac i adael grwpiau troseddu cyfundrefnol heb unrhyw le i guddio.

Y Gwir Anrhydeddus Suella Braverman KC AS

Ysgrifennydd Cartref

² Operation Venetic: Diweddariad ystadegau gweithredol ar ran holl orfodi'r gyfraith yn y DU. Ffynhonnell: (public-newsroom-nca-01.azurewebsites.net).

Crynodeb gweithredol

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i dorri troseddau a gwella ein diogelwch cenedlaethol, fel y nodir yn ein Cynllun Gorchfygu Troseddu 2021³ ac Adolygiad Integredig 2021⁴. Er mwyn cyflawni hyn, mae angen i ni wneud bywyd yn anoddach i droseddwyr cyfundrefnol. Mae hynny'n golygu ymgymryd â'r gangiau troseddol sy'n cyflenwi'r cyffuriau sy'n gyrru hanner yr holl ddynladdiadau, sy'n hwyluso mudo anghyfreithlon a chaethwasiaeth fodern, sy'n cynnal yr ymosodiadau seiberdroseddu sy'n bygwth ein seilwaith cenedlaethol ac y mae eu gweithgarwch ariannol anghyfreithlon yn niweidio ein ffyniant a'n henw da byd-eang.

Mae graddfa a chymhlethdod troseddu difrifol a threfnedig yn debygol o gynyddu, wrth i grwpiau troseddu cyfundrefnol fabwysiadu technolegau newydd a chwilio am gyfleoedd newydd. Mae'n hanfodol bod yr offer sydd ar gael i orfodi'r gyfraith yn cadw'n gyfoes.

Rydym yn ymgynghori ar fesurau deddfwriaethol i gryfhau sut mae'r Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill yn wynebu troseddu difrifol a threfnedig trwy roi mynediad iddynt at offer newydd, yn ogystal â chryfhau'r rhai presennol. Bydd y cynigion yn helpu asiantaethau gorfodi'r gyfraith i rwystro gweithgareddau'r mentrau troseddol mwyaf a mwyaf niweidiol sy'n gweithredu yn y DU. Yn benodol, byddant yn targedu'r galluogwyr a'r hwyluswyr sy'n cefnogi ac yn gwneud elw o droseddu difrifol ac yn gwella ein gallu i reoli ac amharu ar y troseddwyr niwed uchaf.

Bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad 12 wythnos hwn yn llywio ein cynigion ar gyfer deddfwriaeth yn y dyfodol. Cynigion ar hyn o bryd yw'r mesurau yn yr ymgynghoriad hwn ac maent yn parhau i fod yn destun newid yn dilyn y broses ymgynghori. Mae'r cynigion deddfwriaethol mewn perthynas â Chymru a Lloegr yn unig. Er ein bod eisoes wedi ymgysylltu'n helaeth â phartneriaid gweithredol, mae'r ymgynghoriad yn ceisio barn y cyhoedd i sicrhau ein bod yn cipio meysydd o ddiddordeb a phryder gan grwpiau rhanddeiliaid allweddol, fel y gall y safbwyntiau hyn fwydo i mewn i'n datblygiad polisi a helpu i adeiladu pecyn cadarn o fesurau deddfwriaethol.

³ Y Swyddfa Gartref, Cynllun Gorchfygu Troseddu, Gorffennaf 2021: <https://www.gov.uk/government/publications/beating-crime-plan>

⁴ Swyddfa'r Cabinet, Prydain Fyd-eang mewn Oes Gystadleuol: yr Adolygiad Integredig o Ddiogelwch, Amddiffyn, Datblygu a Pholisi Tramor, Mawrth 2021: <https://www.gov.uk/government/publications/global-britain-in-a-competitive-age-the-integrated-review-of-security-defence-development-and-foreign-policy>

Mesur 1: Troseddau newydd i droseddoli gwneud, addasu, cyflenwi, cynnig cyflenwi a meddu ar erthyglau i'w defnyddio ym maes troseddu difrifol

Rhaid i orfodi'r gyfraith bob amser allu mynd i'r afael â'r offer a'r dechnoleg sy'n datblygu'n gyflym a ddefnyddir gan droseddwr difrifol. Mae'r NCA ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith ehangach yn dod ar draws erthyglau fwyfwy lle mae amheuaeth gref eu bod yn cael eu defnyddio at ddiben troseddu difrifol. Mae erthyglau o'r fath yn cynnwys:

- dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio a ddefnyddir i hwyluso troseddu cyfundrefnol;
- cuddio cerbydau a ddefnyddir i guddio a chludo nwyddau anghyfreithlon;
- templedi digidol y gellir eu defnyddio ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D; a
- gweisg pils a ddefnyddir wrth gyflenwi cyffuriau anghyfreithlon.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi opsiynau ar gyfer troseddau newydd i droseddu gwneud, addasu, cyflenwi, cynnig cyflenwi a meddu ar erthyglau i'w defnyddio mewn troseddu difrifol. Bydd y troseddau hyn yn targedu'r rhai sy'n galluogi ac yn hwyluso troseddau difrifol drwy ddarparu erthyglau sy'n hanfodol er mwyn cyflawni'r troseddau mwyaf difrifol.

Mesur 2: Cynigion i gryfhau a gwella gweithrediad Gorchmynion Atal Troseddu Difrifol (SCPOs)

Mae Gorchmynion Atal Troseddu Difrifol (SCPOs) yn orchmynion ataliol sifil sy'n gallu gosod gwaharddiadau, cyfyngiadau a gofynion wedi'u teilwra ar berson⁵ am gyfnod o hyd at bum mlynedd i atal neu amharu ar eu rhan mewn troseddu difrifol. Gallai telerau SCPO ymwneud ag, er enghraifft: ymdriniaethau busnes ac ariannol, defnyddio adeiladau neu eitemau, darparu nwyddau neu wasanaethau, cyflogi staff, cysylltu ag unigolion, dull cyfathrebu neu deithio⁶. Mae torri SCPO yn drosedd sy'n cyflwyno uchafswm cosb o bum mlynedd o garchar.

Mae SCPOs yn arf pwerus ar gyfer atal ac amharu ar weithgareddau'r troseddwr niwed uchaf sy'n ymwneud â throseddu difrifol. Fodd bynnag, nid yw'r gorchmynion yn cael eu defnyddio i'r effaith fwyaf ar hyn o bryd. Er enghraifft, rhwng 2011 a 2021, dim ond dau gais a wnaed i'r Uchel Lys am SCPO yn absenoldeb euogfarn, gyda dim ond un yn llwyddiannus, o'i gymharu â chyfanswm o 1057 SCPOs yn cael eu gwneud yn Llys y Goron ar euogfarn

⁵ Mae "person" yn cynnwys cyrff corfforaethol, partneriaethau a chymdeithasau heb eu hymgorffori yn ogystal ag unigolion.

⁶ Cyhoeddir enghreifftiau eraill o ddarpariaethau awgrymedig y gall SCPO eu gosod yn Llyfrgell Cynseiliau SCPO Gwasanaeth Erllyn y Goron (CPS): https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/legal_guidance/SCPO-precedent-library.pdf

yn yr un cyfnod⁷. Mae hyn yn sylweddol is nag a ragwelwyd gan y Senedd pan gyflwynodd SCPOs yn Neddf Troseddau Difrifol 2007⁸ ("Deddf 2007").

Yn ogystal, mae monitro a gorfodi SCPOs yn anghyson ar draws heddluoedd Cymru a Lloegr ar hyn o bryd. Canfu adroddiad Effeithiolrwydd yr Heddlu HMICFRS PEEL 2016 mai dim ond 13 o'r 43 heddlu oedd â threfniadau clir ar waith ar gyfer monitro SCPOs⁹. Gallai safoni'r wybodaeth bersonol y mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn ei chofnodi mewn perthynas ag unigolion sy'n destun SCPO helpu i wella cysondeb rheoli achosion o'r garfan hon.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cynnig diwygiadau i Ddeddf 2007 i gryfhau a gwella gweithrediad SCPOs. Nod y gwelliannau yw:

- **gwella'r broses ymgeisio ar gyfer SCPOs**, fel bod SCPOs yn fwy hygyrch i ymarferwyr rheng flaen yn yr ystod lawn o amgylchiadau y gallant fod yn briodol ynddynt; a
- **gwella monitro a gorfodi SCPOs yn barhaus**, i alluogi rheoli'r rhai sy'n ymwneud â throeddu difrifol yn agosach ac i gefnogi rheoli achosion mwy cyson o'r garfan hon gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

Mae SCPOs ar gael ledled y DU. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig.

⁷ Mae'r ffigyrau hyn yn arbrofol, wedi'u seilio ar wybodaeth rheoli HMCTS ac nid ydynt yn cyfateb i ystadegau swyddogol a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

⁸ Mae Nodiadau Esboniadol Deddf 2007 yn nodi mai'r "prif lwybr ar gyfer gwneud gorchymyn fydd cais i'r Uchel Lys". Yn ogystal, yng Nghyfnod Pwyllgor Arglwyddi'r Mesur Troseddu Difrifol, dywedodd y Farwnes Scotland o Asthal fod partneriaid gweithredol wedi nodi y gall fod 25 neu 30 o orchmynion o'r fath – gweler Hansard, Cyfrol 690, 7 Mawrth 2007: [https://hansard.parliament.uk/Lords/2007-03-07/debates/07030790000002/SeriousCrimeBill\(HL\)](https://hansard.parliament.uk/Lords/2007-03-07/debates/07030790000002/SeriousCrimeBill(HL))

⁹ Arolygiaeth Cwnstabiliaeth ei Mawrhydi, PEEL: Effeithiolrwydd yr Heddlu 2016, Mawrth 2017: <https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmicfrs/wp-content/uploads/peel-police-effectiveness-2016.pdf> – Gweler tudalen 112.

Cyflwyniad

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi mesurau deddfwriaethol posibl i gryfhau pwerau asiantaethau gorfodi'r gyfraith yng Nghymru a Lloegr i ddod â throseddwyr difrifol a threfnedig i gyfiawnder a diogelu'r cyhoedd rhag y risg y maent yn ei hachosi.

Y mesurau deddfwriaethol hyn yw:

1. troseddau newydd i droseddu gwneud, addasu, cyflenwi, cynnig cyflenwi a meddu ar erthyglau i'w defnyddio mewn troseddu difrifol; a
2. cynigion i gryfhau a gwella gweithrediad Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol (SCPOs) o dan Ddeddf Troseddu Difrifol 2007.

Mae'r ymgynghoriad hwn ar agor i'r cyhoedd. Mae gennym ddiddordeb arbennig i glywed gan y rhai y gallai'r cynigion effeithio arnynt pe bydden nhw'n dod yn ddeddfwriaeth yng Nghymru a Lloegr, gan gynnwys ymarferwyr gorfodi'r gyfraith, busnesau, gweithwyr proffesiynol cyfreithiol ac aelodau'r cyhoedd, yn ogystal â sefydliadau anllywodraethol sy'n canolbwyntio ar hawliau sifil a hawliau dynol.

Mae'r Asesiadau Effaith sydd ar gael ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn yn dangos pa grwpiau sy'n debygol o gael eu heffeithio'n arbennig gan y cynigion hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sefydliadau, busnesau, cymunedau ac unigolion y mae troseddu difrifol yn effeithio arnynt;
- busnesau sy'n gwneud, addasu, cyflenwi, cynnig cyflenwi, meddu ar neu fel arall yn ymwneud ag erthyglau a ddefnyddir mewn troseddu difrifol; ac
- y System Cyfiawnder Troseddol.

Mae'r cynigion yn annhebygol o arwain at gostau neu arbedion ychwanegol i elusennau neu'r sector gwirfoddol.

Mae croeso i sylwadau ar, a thystiolaeth ychwanegol a allai gyfrannu tuag at, yr Asesiadau Effaith gan yr ymatebwyr.

Mae copïau o'r papur ymgynghori hwn yn cael eu hanfon at:

- Gweinyddiaethau Datganoledig
- Yr Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol
- Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu
- Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Y Swyddfa Twyll Difrifol
- Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf ei Fawrhydi
- Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub ei Fawrhydi
- Cymdeithas Comisiynwyr Heddlu a Throseddu
- Sefydliadau sy'n cynrychioli buddiannau busnes a diwydiant
- Gwasanaethau cyfreithiol sefydliadau ag aelodaeth proffesiynol
- Sefydliadau gyda ffocws ar hawliau sifil a hawliau dynol
- Academyddion â diddordeb mewn troseddu difrifol a threfnedig a chyfiawnder troseddol
- Seneddwyr sydd â diddordeb

Nid yw'r rhestr hon i fod yn gynhwysfawr ac mae ymatebion yn cael eu croesawu gan unrhyw un sydd â diddordeb mewn, neu farn ar, y pynciau sy'n cael eu trafod gan y ddogfen hon.

Mesurau

Mesur 1: Troseddau newydd i droseddu gwneud, addasu, cyflenwi, cynnig cyflenwi a meddu ar erthyglau i'w defnyddio mewn troseddu difrifol

Pam mae angen i ni newid y ddeddfwriaeth bresennol?

Mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith wedi codi pryderon bod opsiynau cyfreithiol cyfyngedig i fynd i'r afael â'r offer a'r dechnoleg sy'n datblygu'n gyflym sy'n cael eu hecsbloetio gan droseddwyr difrifol. Mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn dod ar draws unigolion sy'n meddu ar erthyglau yn gynyddol lle mae amheuaeth gref eu bod yn cael eu defnyddio at ddiben troseddu difrifol. Mae erthyglau o'r fath yn cynnwys: cuddio cerbydau a ddefnyddir i guddio a chludo nwyddau anghyfreithlon, dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio a ddefnyddir i hwyluso troseddu cyfundrefnol, templedi digidol ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D a gweisg pils a ddefnyddir wrth gyflenwi cyffuriau anghyfreithlon. Ceir rhagor o fanylion am yr erthyglau hyn isod.

Cuddio cerbydau neu "guddfannau" (adrannau cudd statig neu symudol mewn cerbydau): Mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith wedi dweud bod cynhyrchu a defnyddio adrannau cudd soffistigedig mewn cerbydau yn fygythiad cynyddol. Gall adrannau cudd ganiatáu i unigolion guddio a chludo nwyddau anghyfreithlon gyda llai o risg o'r nwyddau'n cael eu darganfod, gan alluogi'r gweithgaredd troseddol i barhau heb ei ganfod.

Dyfeisiadau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio: Mae'r dyfeisiau soffistigedig hyn yn rhoi mynediad i lwyfannau cyfathrebu wedi'u hamgryptio a ddefnyddir gan droseddwyr difrifol a threfnedig i gynllunio eu gweithgareddau anghyfreithlon. Mae natur amgryptio uchel dyfeisiau o'r fath a'r ffordd y cawsant eu haddasu yn creu rhwystrau sylweddol i asiantaethau gorfodi'r gyfraith sy'n casglu deallusrwydd a thystiolaeth mewn perthynas â throseddau difrifol. Mae'r dyfeisiau hyn yn ddrud i'w cael ac yn cynnwys dulliau cymhleth o gyfathrebu gyda defnyddwyr eraill dyfeisiau o'r fath. Yn union fel mae lefel eu hamgryptio yn eu gwneud yn ddelfrydol i'r rhai sy'n ymwneud â throseddoldeb difrifol, felly mae eu pris a'u cymhlethdod yn ei gwneud hi'n anoddach rhagweld angen i unrhyw un eu defnyddio am resymau cyfreithlon, cyfreithiol.

Ffeiliau digidol neu dempledi ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D: Mae'r NCA wedi dweud ei bod yn debygol iawn bod dyluniadau arfau tanio hybrid, lle mae cydrannau wedi'u printio â 3D wedi'u cyfuno â chydrannau metel nad ydynt ar gyfer arfau tanio sydd yn hawdd eu cael, yn cynrychioli'r bygythiad mwyaf sylweddol o dechnolegau printio â 3D wrth geithgynhyrchu arfau tanio troseddol. Mae arfau hybrid hunan-lwytho, wedi'u cydosod o tua 80% o gydrannau printiedig, wedi'u cipio yn y DU. Wrth i ansawdd

arfau printiedig â 3D wella, mae'n debygol iawn y bydd arfau tanio hybrid hyfyw yn cael eu cynnwys fwyfwy ym maes troseddoldeb y DU¹⁰.

Gweisg pils (a ddefnyddir i wneud tabledi): Er bod gan weisg pils ddefnyddiau cyfreithlon ar draws diwydiant, mae'r NCA wedi nodi bod grwpiau troseddu cyfundrefnol yn defnyddio gweisg pils i weithgynhyrchu bensodiasepinau anghyfreithlon. Mae adroddiadau o argaeledd bensodiasepin a niwed cysylltiedig yn Lloegr wedi bod yn cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, yn arbennig yng Ngogledd-ddwyrain, Gogledd-orllewin a De-orllewin Lloegr. Mae data iechyd yn Lloegr yn awgrymu bod nifer cynyddol o bobl yn profi niwed aciwt a chronig sy'n gysylltiedig â defnydd bensodiasepinau.¹¹

Ar gyfer astudiaethau achos mewn perthynas ag adrannau cudd mewn cerbydau a dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio, gweler yr adran 'Astudiaethau Achos' ar dudalen 13 isod.

Y drefn gyfreithiol bresennol

Mae ymarferwyr gorfodi'r gyfraith o'r farn nad yw bob amser yn bosibl dilyn troseddwy'r sy'n gwneud, addasu, cyflenwi, cynnig cyflenwi neu feddiannu erthyglau i'w defnyddio mewn troseddu difrifol o dan y ddeddfwriaeth bresennol.

Creodd Rhan 2 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007 droseddau (adrannau 44-49) sy'n targedu gweithredoedd sy'n annog neu'n cynorthwyo troseddau, y gellir eu defnyddio mewn rhai amgylchiadau i fynd i'r afael â'r rhai sy'n cyflenwi neu'n meddu ar erthyglau i'w defnyddio mewn troseddu difrifol.

Er enghraifft, creodd adran 46 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007 drosedd o annog neu gynorthwyo'r comisiynu troseddau gan gredu y bydd un neu fwy yn cael ei gyflawni. Yn *R v Sadique*¹² Defnyddiwyd adran 46 yn llwyddiannus i erlyn unigolyn a oedd yn gwerthu difwynwr cyffuriau (cynnyrch cyfreithiol) at ddiben cyflenwi cyffuriau troseddol. Fodd bynnag, mae profi'r troseddau hyn yn dibynnu ar ddangos bod cyflwr meddwl y cyhuddedig yn cyrraedd y trothwyon a osodwyd yn y ddeddfwriaeth bresennol. Mae trosedd adran 46 yn dibynnu ar gred y cyhuddedig y bydd un neu ragor o droseddau yn cael eu cyflawni (mae'r prawf hwn yn cynnwys naill ai cred neu fod yn ddi-hid ynghylch presenoldeb yr amgylchiadau, canlyniadau a lefel y bai sy'n ei gwneud yn drosedd) ac y bydd gweithred y cyhuddedig yn annog neu'n cynorthwyo comisiynu un neu fwy o'r troseddau hynny. Gall fod yn anodd profi bod cyflwr meddwl y cyhuddedig yn cyrraedd trothwy cred y bydd trosedd yn cael ei chyflawni ac y bydd eu gweithred yn annog neu'n cynorthwyo.

¹⁰ Mae hwn yn asesiad gweithredol a ddarperir gan bartneriaid gorfodi'r gyfraith.

¹¹ Public Health England, Tîm Asesu ac Ymateb Niwed Cyffuriau (DHART) Crynodeb chwarterol ar gyfer gweithwyr proffesiynol, Mai 2021 - https://khub.net/web/phe-national/public-library/-/document_library/v2WsRK3ZIEig/view_file/467541764?_com_liferay_document_library_web_portlet_DL_Portlet_INSTANCE_v2WsRK3ZIEig_redirect=https%3A%2F%2Fkhub.net%3A443%2Fweb%2Fphe-national%2Fpublic-library%2F-%2Fdocument_library%2Fv2WsRK3ZIEig%2Fview%2F345595238

¹² [2013] EWCA Crim 1150, [2013] 4 Pob ER 924, [2014] 1 WLR 986, [2013] 2 Cr App Rep 352

Mae'r drosedd adran 44 yn gofyn am brawf bod y cyhuddedig yn bwriadu annog neu gynorthwyo comisiynu trosedd (gan gynnwys bod y cyhuddedig yn bwriadu, yn credu neu'n ymddwyn yn ddi-hid o ran yr amgylchiadau, y canlyniadau a'r bai sy'n ei gwneud yn drosedd). Gall hyn fethu â chipio'r rhai sy'n ymwneud â chyflenwi erthyglau fel y rhai a ddisgrifir uchod, oherwydd ni fyddant yn bwriadu annog na chynorthwyo yn benodol i gomisiynu trosedd.

Creodd adran 45 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2015, drosedd o gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp troseddu cyfundrefnol (OCG). Mae gan y drosedd hon drothwy cyflwr cymharol isel o feddwl gan mai dim ond angen i'r erlyniad ddangos bod y cyhuddedig yn cymryd rhan mewn gweithgareddau y mae'r cyhuddedig yn rhesymol yn amau" eu bod yn weithgareddau troseddol o OCG neu a fydd yn helpu OCG i gynnal gweithgareddau troseddol. Fodd bynnag, mae'r drosedd hon yn dibynnu ar brofi cysylltiad ag OCG. Efallai dim ond un troseddwr y gallai cyflenwyr ddelio ag ef ac efallai na fydd yn ymwybodol o fodolaeth OCG, sy'n golygu na fydd y drosedd bob amser yn addas.

Mewn perthynas â gweisg pils, mae adran 9A(3) o Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971 yn ei gwneud yn drosedd i gyflenwi neu gynnig cyflenwi unrhyw erthygl y gellir ei defnyddio i baratoi cyffur rheoledig i'w ddarparu, gan gredu ei fod i'w ddefnyddio mewn amgylchiadau lle mae'r ddarpariaeth yn anghyfreithlon. Gellid defnyddio'r drosedd hon yn erbyn cyflenwi gweisg pils, fodd bynnag mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith wedi nodi anawsterau wrth brofi'r trothwy cyflwr meddwl gofynnol i sefydlu'r drosedd. Ni fyddai person sy'n cyflenwi gwasg bils lle'r oeddent yn amau, neu y dylent fod wedi amau, y byddai'n cael ei ddefnyddio mewn trosedd o reidwydd yn cael ei ddal gan drosedd Deddf 1971.

Mewn perthynas ag adrannau cudd mewn cerbydau, mae adran 88 o Ddeddf Rheoli Tollau Tramor a Chartref 1974 (CEMA) yn caniatáu i swyddogion sydd â phwerau tollau atafaelu cerbydau sydd wedi'u "hadeiladu, addasu, newid neu eu gosod mewn unrhyw fodd at ddiben cuddio nwyddau" os ydynt, neu wedi bod, o fewn ffiniau porthladd, ardal tollau rheilffordd neu erodrom. Fodd bynnag, nid yw hyn yn ymestyn i gerbydau a ddarganfyddir yn fewndirol ac nid yw'n drosedd meddu ar gerbyd o'r fath.

Asesiad y Llywodraeth yw bod bwloch yn y fframwaith cyfreithiol. Mae gweithgynhyrchwyr, addaswyr a chyflenwyr yn gwneud elw o gyflenwi erthyglau o'r fath i droseddwyr difrifol, ond yn cadw dim ond digon o bellter o'r troseddau sy'n cael eu cyflawni er mwyn osgoi wynebu unrhyw ganlyniadau. Yn yr un modd, lle ceir pobl ym meddiant erthyglau mewn amgylchiadau sy'n awgrymu ymwneud â throseddau difrifol, gall fod yn anodd dangos y lefel neu'r wybodaeth neu'r bwriad y byddai'n ofynnol i'w herlyn am dramgwydd troseddol.

Byddem yn croesawu tystiolaeth bellach gan y rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar allu neu gyfyngiadau i'r troseddau sy'n bodoli eisoes.

Astudiaethau Achos

Adrannau cudd mewn cerbydau

Mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith wedi dweud bod cynhyrchu a defnyddio adrannau cudd soffistigedig mewn cerbydau yn fygythiad cynyddol. Gall adrannau cudd ganiatáu i unigolion guddio a chludo nwyddau anghyfreithlon gyda llai o risg o'r nwyddau'n cael eu darganfod, gan alluogi'r gweithgaredd troseddol i barhau heb ei ganfod. Mae rhai adrannau cudd yn cael eu hadeiladu i fod yn ddigon mawr i hwyluso smyglo pobl. Mae partneriaid gorfodi'r gyfraith nid yn unig wedi cofnodi cynnydd yn y defnydd o adrannau cudd mewn cerbydau, ond hefyd nad yw adrannau cudd yn cael eu defnyddio bellach yn unig ar gyfer mewnfario nwyddau anghyfreithlon i'r DU o dramor. Maen nhw bellach hefyd yn cael eu defnyddio'n fewndirol i hwyluso troseddau sy'n cynnwys cyffuriau, arfau tanio ac arian troseddol. Mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn asesu bod adeiladu'r adrannau cudd hyn yn broffidiol i unigolion a garejis.

Mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn poeni'n benodol am adrannau cudd soffistigedig a gyflwynir drwy'r addasiad i gerbydau; efallai na fydd yr adrannau cudd hyn i'w gweld hyd yn oed pan yw rhywun y tu mewn i'r cerbyd neu wrthi'n ei chwilio. Y mathau hyn o adrannau cudd y mae'r cynigion yn ceisio eu targedu. Nid yw'r cynigion hyn yn ceisio targedu adrannau menig na manau storio gyffredin eraill mewn cerbydau.

Rydym yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gan y rhai sy'n defnyddio, cynhyrchu, addasu, cyflenwi neu berchen ar gerbydau ag adrannau cudd, neu adrannau cudd cludadwy y gellir eu mewnosod mewn cerbydau, am resymau dilys a byddem yn gwerthfawrogi gwybodaeth am yr amgylchiadau y cânt eu defnyddio ynddynt.

Astudiaeth Achos - Adrannau Cudd mewn Cerbydau

Mae'r astudiaeth achos hon wedi'i darparu gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith. Cyfeirir at y gwrthrych o ddiddordeb fel 'C'.

Nododd asiantaethau gorfodi'r gyfraith fod y gwrthrych 'C' yn adeiladu adrannau cudd i gerbydau ar alw am rwydweithiau troseddol cyfundrefnol ledled y wlad. Mae ei gwsmeriaid yn ymwneud â throeddau difrifol a, thrwy adeiladu'r cuddfannau, mae 'C' yn hwyluso troseddu gan y rhwydweithiau hynny.

Yn anffodus, nid yw'r ymchwiliad wedi arwain at dystiolaeth ddigonol o gyflwr meddwl 'C'. Nid yw erioed wedi bod yn ymwneud yn uniongyrchol ag unrhyw drafodiad neu gyfnewidiadau cyffuriau ac mae wedi mynnu mai ei rôl yn syml yw adeiladwr adrannau cudd i gerbydau. Ystyriwyd dilyn arestiad a chyhuddiadau o dan y troseddau presennol ond credwyd nad oedd yn pasio'r trothwyon angenrheidiol.

Dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio

Mae dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio wedi cael eu defnyddio'n helaeth gan droseddwyr i hwyluso troseddau cyfundrefnol. Rydym yn targedu'r dyfeisiau

addasedig a phwrpasol sy'n galluogi mynediad i lwyfannau, yn debyg i Encro Chat, lle datblygwyd y feddalwedd / caledwedd i ddiennwi ei ddefnyddwyr a'u cyfathrebiadau ac asesir bod ei sylfaen ddefnyddwyr bron yn sicr yn droseddol. O dan Opsiwn 1 lle bydd erthyglau'n cael eu nodi, byddwn yn targedu'r rhai sy'n cyflenwi, addasu, ac yn meddu ar y dyfeisiau pwrpasol hyn; Ni fydd y darpariaethau'n berthnasol i ffonau symudol sydd ar gael yn fasnachol na'r apiau negeseua wedi'u hamgryptio sydd ar gael arnynt. Bydd y troseddau arfaethedig yn ceisio mynd i'r afael â'r rhai sy'n cyflenwi ac yn manteisio ar y dyfeisiau hyn er mwyn cyflawni troseddau difrifol a bydd yn ceisio lleihau'r cyflenwad o'r dyfeisiau hyn i droseddwyr difrifol.

Astudiaeth achos – Dyfeisiau EncroChat

EncroChat oedd un o'r llwyfannau cyfathrebu wedi'u hamgryptio mwyaf poblogaidd yn y DU. Roedd gan y ffonau, a gostiodd tua £1,500 am contract 6 mis, apiau wedi'u llwytho ymlaen llaw ar gyfer negeseuon gwib wedi'u hamgryptio, nid oedd ganddynt unrhyw ymarferoldeb ffôn clyfar arall ac roeddent yn cynnig y gallu i ddefnyddwyr gyfathrebu yn y gred bod y dechnoleg yn ddiogel.

Fodd bynnag, yn 2020, llwyddodd partneriaid gorfodi'r gyfraith ryngwladol i ymdreiddio i'r plattform."Operation VENETIC" oedd ymateb gorfodi'r gyfraith yn y DU i'r ymdrech ryngwladol hon i dargedu EncroChat a'r gymgyrch fwyaf arwyddocaol o'i fath. Roedd yn dangos pa mor gyffredin oedd y plattform EncroChat ac i ba raddau yr oedd troseddwyr yn ei ddefnyddio i gynnal eu gweithgarwch troseddol. Datgelodd yr ymgyrch fod tua 10,000 o ddefnyddwyr yn y DU a thua 60,000 o ddefnyddwyr ledled y byd.

Mae Operation VENETIC wedi arwain at dros 2,864 o arestiadau ac atafael £76 miliwn o arian troseddol, 170 o arfau tanio a dros 18 dunnell o gyffuriau hyd yma, gyda gwaith yn parhau.¹³ Ym mis Mehefin 2020, gwnaed manylion Ymgyrch VENETIC yn gyhoeddus ac anogodd EncroChat ddefnyddwyr i daflu eu setiau llaw i ffwrdd.

Gall fod yn anodd dangos bod gan gyflenwyr dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio sy'n cael eu defnyddio mewn troseddau difrifol y cyflwr meddwl gofynnol i alluogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith i'w herlyn o dan y ddeddfwriaeth bresennol, gan na fyddant yn aml yn cymryd rhan yn uniongyrchol yn y drosedd ddifrifol eu hunain. Serch hynny, mae unigolion sy'n cyflenwi dyfeisiau o'r fath yn chwarae rhan bwysig wrth hwyluso troseddau difrifol a chael y gwobrau ariannol. Yn yr un modd, pan geir unigolion ym meddiant dyfais o'r fath, efallai na fydd modd profi eu gwybodaeth na'u bwriad i'r trothwyon sydd eu hangen i'w cael yn euog, er gwaethaf anhawster adnabod defnyddiau cyfreithlon ar gyfer technoleg o'r fath. Bydd y troseddau arfaethedig yn ceisio mynd i'r afael â'r rhai sy'n cyflenwi ac yn manteisio ar y dyfeisiau hyn er mwyn cyflawni troseddau difrifol a byddant yn ceisio lleihau'r cyflenwad o'r dyfeisiau hyn i droseddwyr difrifol.

¹³ Operation Venetic: Diweddariad ystadegau gweithredol ar ran holl orfodi'r gyfraith yn y DU. Ffynhonnell: (public-newsroom-nca-01.azurewebsites.net)

Mae'r astudiaeth achos isod wedi cael ei darparu gan Wasanaeth Erlyn y Goron ac mae'n dangos sut y gallai'r drosedd newydd fod yn ddefnyddiol ar gyfer erlyn aelod o grŵp troseddu cyfundrefnol.

Astudiaeth achos – Dyfeisiau EncroChat

Mae'r achos yn ymwneud â chynllwyn honedig i drosglwyddo arian parod o fwy na £10m allan o'r DU.

Cafodd nifer o ddiffynyddion eu cyhuddo o gynllwynio i symud eiddo troseddol o Gymru a Lloegr yn groes i adran 1(1) o Ddeddf Cyfraith Droseddol 1977. Roedd Mr A yn berthynas i un o'r diffynyddion (Mr B). Roedd y ddau yn byw yn yr un cyfeiriad. Pan gafodd Mr B ei arestio, fe wnaeth y swyddogion adfer ffôn EncroChat wedi'i amgryptio y cyfaddefodd Mr A mai ei ffôn ef ydoedd. Dywedodd diffynnydd arall (Mr C) ei fod wedi cael cyfarwyddyd i alw Mr A ar ffôn EncroChat wedi iddo fyrddio'r awyren yn ddiogel gyda'r arian parod.

Gwadodd Mr A unrhyw wybodaeth neu gysylltiad ag unrhyw un o'r gweithgareddau troseddol. Doedd gan Mr A ddim incwm dilys a fyddai wedi caniatáu iddo fod yn berchen ar a chynnal dyfais symudol mor ddrud.

Yn seiliedig ar gudd-wybodaeth sydd ar gael, roedd y tîm ymchwilio yn credu'n gryf bod Mr A wedi cael ei gyflenwi gyda'r ffôn EncroChat gan OCG at ddiben cynnal gwaith i hyrwyddo'r cynllwyn. Fodd bynnag, nid oedd ymchwilwyr yn gallu cyrchu unrhyw ddata o'r ffôn oherwydd nodweddion diogelwch y ddyfais a arweiniodd at ddileu'r data yn awtomatig ar ôl ychydig ddyddiau. Aseswyd nad oedd digon o dystiolaeth i geisio erlyn Mr A o dan droseddau presennol.

Enghreifftiau o droseddau statudol presennol

Mae cynseiliau yn y ddeddfwriaeth bresennol ar gyfer troseddau sy'n troseddoli'r gwaith o wneud, addasu, cyflenwi erthyglau i'w defnyddio mewn troseddu, er enghraifft:

- Deddf Twyll 2006:
 - mae adran 6 yn nodi'r drosedd o feddu ar unrhyw erthygl i'w defnyddio mewn unrhyw dwyll neu mewn cysylltiad ag ef;
 - Mae adran 7 yn nodi'r drosedd o wneud, addasu, cyflenwi neu gynnig cyflenwi unrhyw erthygl gan wybod ei bod wedi'i chynllunio neu ei haddasu i'w defnyddio neu mewn cysylltiad â thwyll, neu'n bwriadu iddi gael ei ddefnyddio i gyflawni, neu gynorthwyo i gomisiynu twyll;
- mae adran 17 o Ddeddf Ffugio a Drwgfathu 1981 yn gwneud darpariaeth debyg mewn perthynas ag erthyglau y mae'r person yn bwriadu iddynt gael eu defnyddio ar gyfer drwgfathu arian ac ar gyfer erthyglau y mae'r person yn gwybod sydd wedi'u 'dylunio neu eu haddasu'n arbennig' ar gyfer drwgfathu, heb esgus cyfreithlon; a

- mae adran 57 o Ddeddf Terfysgaeth 2000 yn ei gwneud yn drosedd i feddu ar erthygl mewn amgylchiadau sy'n arwain at amheuaeth resymol bod y meddiant at ddiben sy'n gysylltiedig â chomisiynu, paratoi neu annog gweithred derfysgaeth. Mae'n amddiffyniad i'r person brofi nad yw'r erthygl at bwrpas o'r fath.

Troseddau newydd arfaethedig

Diffinio troseddu difrifol

Mae'r cynigion hyn yn canolbwyntio ar erthyglau a ddefnyddir mewn troseddu difrifol. At ddiben y troseddau newydd arfaethedig hyn yn unig, bwriad "troseddu difrifol" yw cynnwys troseddu sy'n gysylltiedig â throseddwy'r cyfundrefnol sy'n achosi lefel uchel o niwed i unigolion a chymdeithas, megis: caethwasiaeth, masnachu pobl, troseddau mewnfudo cyfundrefnol, masnachu cyffuriau, troseddau ag arfau tanio, terfysgaeth, lladrad arfog a throseddau economaidd (gan gynnwys twyll, gwyngalchu arian, osgoi sancsiynau a throseddau mewn perthynas â'r refeniw cyhoeddus). Gallai hefyd gynnwys troseddau difrifol yn erbyn y person, gan gynnwys llofruddiaeth, herwgipio, niwed corfforol difrifol, troseddau rhywiol yn erbyn plant a throseddau rhywiol eraill. Cynigir mai dim ond troseddau ag uchafswm o garchar am 5 mlynedd neu fwy fyddai'n cael eu cynnwys o fewn y diffiniad o droseddu difrifol at ddibenion y troseddau hyn.

Byddem yn croesawu barn ar yr hyn y dylid ei gynnwys o fewn y diffiniad o droseddu difrifol at ddiben y troseddau newydd arfaethedig hyn.

Dewisiadau

Rydym yn ystyried dau opsiwn ar gyfer diffinio'r troseddau posibl, sy'n ceisio cydbwysu'r angen i allu mynd i'r afael â galluogwyr a hwyluswyr troseddu difrifol, tra'n sicrhau bod y troseddau'n parhau i fod yn gymesur ac wedi'u targedu.

Opsiwn 1: Trothwy is ac erthyglau penodedig

Trosedd cyflenwi fyddai'r opsiwn hwn a throsedd meddiant wedi'i gosod ar drothwy isel, wedi'i glymu i restr benodol o erthyglau:

- Trosedd o wneud, addasu, cyflenwi, cynnig cyflenwi **erthygl a bennir** lle mae gan berson **seiliau rhesymol** i amau y bydd yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw drosedd ddifrifol.
- Trosedd o feddu ar unrhyw **erthygl a bennir** lle mae person yn **bwriadu** neu, mae ganddo **seiliau rhesymol** i amau, y bydd yn cael ei ddefnyddio mewn unrhyw drosedd ddifrifol.

Byddai'r erthyglau'n cael eu pennu a'u diffinio mewn deddfwriaeth, a byddent yn cynnwys adrannau cudd mewn cerbydau, dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio, templedi digidol ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D a gweisg pils. Byddem yn cynnwys yn y ddeddfwriaeth bŵer i ychwanegu at y rhestr o erthyglau penodedig o dan ddeddfwriaeth eilaidd, er mwyn sicrhau bod y rhestr yn parhau i fod yn gyfredol ac y gellir ei

diweddarau wrth i droseddau difrifol ddatblygu. Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am ddrafftio diffiniadau manwl o'r erthyglau penodol, er enghraifft diffiniad o ddyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio nad yw'n cynnwys pob ffôn symudol.

Byddem yn croesawu barn am ddiffiniadau o erthyglau penodol mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Ar gyfer y troseddau hyn, byddai angen i'r erlyniad ddangos bod gan y cyhuddedig sail resymol dros amau y bydd yr erthygl y maen nhw'n ei gwneud, addasu, cyflenwi, cynnig cyflenwi neu meddu arni yn cael ei defnyddio mewn troseddau difrifol. Byddai hon yn safon wrthrychol o'r hyn y byddai person rhesymol wedi ei amau, o ystyried y wybodaeth sydd ar gael i'r cyhuddedig. Gallai mewn rhai achosion droseddoli'r rhai nad oedd yn amau y byddai'r erthyglau'n cael eu defnyddio ar gyfer troseddu difrifol. Y cyfiawnhad dros droseddoli pobl o'r fath, sydd heb amheuaeth go iawn, yw bod cysylltiad agos rhwng yr erthyglau a enwir mewn deddfwriaeth mor agos â throseddu difrifol fel ei bod yn briodol disgwyl bod gan y rhai sy'n ymwneud â gwneud, addasu, cyflenwi neu gynnig cyflenwi, neu sydd i'w canfod ym meddiant erthyglau o'r fath safon resymol o leiaf o ymwybyddiaeth o arwyddion gweithgarwch troseddol. Gallai'r arwyddion hyn gynnwys cwsmeriaid sydd eisiau dyfais wedi'i hamgryptio sydd wedi'i chynllunio i gyrchu rhwydwaith neu daliad pwrpasol troseddol trwy ddulliau sy'n cuddio hunaniaeth y talwr.

Byddai'r troseddau hyn yn cynorthwyo lle mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn dod o hyd i erthyglau, megis adrannau cudd mewn cerbydau neu ddyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio, ac mae'r rhai sydd ym meddiant yr erthyglau yn honni anwybodaeth, megis yn yr astudiaeth achos dyfais EncroChat a ddarperir uchod. Lle gellir dangos y byddai person rhesymol sydd â'r un wybodaeth â'r wybodaeth sydd ar gael i'r cyhuddedig wedi amau y bydd yr erthygl dan sylw yn cael ei defnyddio mewn troseddu difrifol, yna gallai'r person hwnnw gael ei ddal gan y drosedd. Byddai'r drosedd hefyd yn berthnasol lle mae'r person sydd ym meddiant yr erthygl yn bwriadu ei ddefnyddio mewn troseddu difrifol eu hunain.

Ni fyddai'r drosedd yn cipio pobl sy'n gwneud, addasu, cyflenwi cynnig i gyflenwi, neu feddu ar yr erthyglau penodol lle nad oes sail resymol dros amau y bydd yr erthyglau'n cael eu defnyddio mewn troseddu difrifol. Ni fyddai'n cael yr effaith o wahardd cynhyrchu, cyflenwi na meddu ar yr erthyglau hyn. Ni fyddai angen dangos bod gan y cyhuddedig sail resymol i amau y byddai erthygl yn cael ei defnyddio mewn trosedd ddifrifol benodol; byddai'n ddigon i ddangos bod gan y cyhuddedig sail resymol i amau y byddai'n cael ei defnyddio mewn unrhyw drosedd ddifrifol.

Opsiwn 2: Trothwy uwch a dim eitemau penodedig

Trosedd cyflenwi a throsedd meddiant wedi'i gosod ar drothwy uwch fyddai'r opsiwn hwn, ond heb fod ynghlwm wrth erthyglau penodedig:

- Trosedd o wneud, addasu, cyflenwi, cynnig cyflenwi **unrhyw erthygl** lle mae person **yn amau'n rhesymol** y bydd yn cael ei defnyddio mewn unrhyw drosedd ddifrifol.

- Y drosedd o feddu ar **unrhyw erthygl** lle mae person yn **bwriadu** neu'n **amau'n rhesymol** y bydd yn cael ei defnyddio mewn unrhyw drosedd ddifrifol.

Byddai'r troseddau hyn yn ehangach nag Opsiwn 1, gan na fydden nhw'n nodi erthyglau, fodd bynnag byddai'r ehangder hwn yn cael ei gydbwyso â throthwy uwch – bod y cyhuddedig yn amau'n rhesymol y bydd yr erthygl yn cael ei defnyddio mewn trosedd difrifol. Ar gyfer y troseddau hyn, byddai angen i'r erlyniad ddangos bod y cyhuddedig yn yr achos penodol yn amau y bydd yr erthygl y maen nhw'n ei gwneud, addasu, cyflenwi, cynnig cyflenwi neu feddu arni yn cael ei defnyddio mewn trosedd difrifol. Prawf goddrychol fyddai hwn, yn hytrach na'r prawf gwrthrychol a gynigir yn Opsiwn 1. Byddai angen i amheuron ynghylch y cyhuddedig fod yn seiliedig ar dystiolaeth; ni fyddai'r drosedd yn cael ei dangos lle'r oedd yr amheuaeth wedi ei seilio ar ddychymyg neu dybiaethau. Gallai'r trothwy uwch hwn leihau effaith y drosedd, oherwydd gallai fod yn anoddach i'w brofi. Fel yn Opsiwn 1, byddai'r drosedd hefyd yn berthnasol lle mae'r person sydd ym meddiant yr erthygl yn bwriadu ei defnyddio mewn trosedd difrifol eu hunain.

Yn wahanol i Opsiwn 1, byddai gan y troseddau hyn fantais o hyblygrwydd ar y mathau o erthyglau dan sylw, gan sicrhau y gall asiantaethau gorfodi'r gyfraith ymateb yn gyflym i dechnoleg sy'n dod i'r amlwg heb fod angen diweddarau deddfwriaeth yn aml. Byddai hefyd yn lleihau'r cyfleoedd i droseddwyr difrifol osgoi'r diffiniadau o erthyglau a ddefnyddir mewn deddfwriaeth. Y bwriad yw y byddai'r diffiniad o erthyglau yn cynnwys pethau diriaethol ac anniriaethol, fel y byddai'n dal erthyglau fel rhaglenni cyfrifiadurol¹⁴.

Yn yr un modd ag Opsiwn 1, ni fyddai angen profi bod y cyhuddedig yn amau'n rhesymol y bydd yr erthygl yn cael ei defnyddio mewn trosedd ddifrifol benodol; byddai'n ddigon i brofi bod y cyhuddedig yn amau'n rhesymol y bydd yr erthygl yn cael ei defnyddio mewn unrhyw drosedd ddifrifol.

Mae'r ddau opsiwn yn bwriadu arfogi asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn well i dargedu pobl sy'n cyflenwi offer trosedd cyfundrefnol a phobl a geir ym meddiant yr offer hynny.

Amddiffyniadau

Gallai'r troseddau gynnwys amddiffyniad o weithredu'n rhesymol, yn debyg i'r hyn a geir yn adran 50 o Ddeddf Trosedd Difrifol 2007. Lle gallai person sydd wedi'i gyhuddo o gyflawni trosedd cyflenwi neu feddu ddangos ei fod wedi gweithredu'n rhesymol o dan yr amgylchiadau yr oeddent yn ymwybodol ohonynt, neu o dan yr amgylchiadau y credent yn rhesymol a oedd yn bodoli, bydd ganddynt amddiffyniad.

Byddem yn croesawu barn ar gynnwys yr amddiffyniad hwn neu rai eraill.

Cosbau

Byddai'r cosbau sydd ar gael am y troseddau hyn yn cael eu gosod yn unol â throeddau tebyg. Er enghraifft, mae gan y drosedd yn adran 6 o Ddeddf Twyll 2006 uchafswm cosb o 5 mlynedd o garchar a'r drosedd cynhyrchu a chyflenwi o dan adran 7 o Ddeddf Twyll 2006

¹⁴ Gweler adran 8 yn Neddf Twyll 2006 am enghraifft o ddiffiniad o "erthygl" sy'n cynnwys rhaglenni a data a gedwir ar ffurf electronig - <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2006/35/section/8>

uchafswm cosb o 10 mlynedd o garchar. Bydd dedfrydu mewn unrhyw achos yn fater i'r llysoedd, o fewn yr uchafswm a ragnodir gan y Senedd.

Pwerau atafael a fforffedu sifil

Byddai'r Llywodraeth yn croesawu barn ynghylch a ddylai pwerau atafaelu a fforffedu sifil fod ar gael gyda'r troseddau arfaethedig. Byddai hyn yn caniatáu i erthygl gael ei hatafael lle mae gan swyddog gorfodi'r gyfraith sail resymol dros amau y bwriedir ei defnyddio mewn troseddu difrifol. Pan fo uwch swyddog neu lys yn fodlon ar gydbwysedd tebygolrwydd y bwriedir i'r erthygl gael ei defnyddio mewn troseddu difrifol, yna gellid fforffedu'r erthygl. Byddai unrhyw un sydd â buddiant yn yr eiddo yn cael cyfle i anghytuno â'r fforffedu sy'n digwydd. Pwerau sifil fyddai'r rhain y gellid eu defnyddio yn erbyn eiddo.

Byddai'r pwerau hyn yn caniatáu tynnu erthyglau o gylchrediad lle bwriedir eu defnyddio mewn troseddu difrifol, heb yr angen i gollfarnu rhywun am drosedd. Mae enghreifftiau o bwerau atafaelu a fforffedu sifil presennol yn Rhan 5 o Ddeddf Enillion Troseddau 2002 mewn perthynas ag arian parod ac asedau rhestredig.

Cwestiynau i ymgynghori

C1. Ydych chi'n credu bod y troseddau presennol yn ddigon i fynd i'r afael â mater cyflenwi erthyglau i'w defnyddio mewn troseddu difrifol? (Ticiwch un.)

- a) Ydw, mae'r troseddau presennol yn ddigonol
- b) Nac ydw, nid yw'r troseddau presennol yn ddigonol
- c) Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys ar raddfa a natur y mater. (Uchafswm 250 o eiriau)

C2. Pa un o'r cynigion am dramgwyddau toseddol newydd ydych chi'n credu y dylid eu dilyn? (Ticiwch un.)

- a) Opsiwn 1 (trothwy is ac erthyglau penodedig)
- b) Opsiwn 2 (trothwy uwch a dim erthyglau penodedig)
- c) Dim un
- d) Arall _____

Os dewisoch chi 'Arall', esboniwch eich ateb. (Uchafswm 250 o eiriau)

C3. Pa erthyglau ydych chi'n credu y dylid eu rhestru ar gyfer Opsiwn 1? (trothwy is ac erthyglau penodedig) (Ticiwch bopeth sy'n berthnasol.)

- a) Adrannau cudd mewn cerbydau
- b) Dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio

- c) Templedi digidol ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D
- d) Gweisg pils
- e) Arall_____

Os dewisoch chi 'Arall', rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

C4. Oes gennych chi unrhyw farn ar sut y dylid diffinio unrhyw un o'r erthyglau canlynol?

- a) Adrannau cudd mewn cerbydau

Rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

- b) Dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio

Rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

- c) Templedi digidol ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D

Rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

- d) Gweisg pils

Rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

- e) Arall

Rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

C5. Mae opsiynau 1 a 2 ill dau yn mynd i'r afael ag erthyglau i'w defnyddio mewn troseddu difrifol. At ddiben yr opsiynau hyn, beth ydych chi'n credu y dylai "troseddu difrifol" ei gynnwys? (Ticiwch un.)

- a) Troseddu'n gysylltiedig â throseddu difrifol a threfnedig a troseddau difrifol yn erbyn y person
- b) Dim ond troseddu sy'n gysylltiedig â throseddau difrifol a threfnedig, nid troseddau difrifol yn erbyn y person
- c) Arall_____
- d) Ddim yn gwybod

Os dewisoch chi 'Arall' rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

C6. Ydych chi'n credu y dylai fod amddiffyniad o "weithredu'n rhesymol" ar gael ar gyfer y troseddau hyn?

- a) Ydw.
- b) Nac ydw

- c) Arall
- ch) Ddim yn gwybod

Os dewisoch chi 'Arall' rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

C7.[Ar gyfer busnesau] Faint o weithwyr sydd gan eich busnes?(Ticiwch un.)

- a) 0-9 o weithwyr
- b) 10-49 o weithwyr
- c) 50 o weithwyr neu fwy

C8. [Ar gyfer busnesau] Ydy eich busnes yn cynnwys unrhyw un o'r erthyglau canlynol? (Ticiwch bopeth sy'n berthnasol.)

- a) Adrannau cudd mewn cerbydau
- b) Dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio
- c) Templedi digidol ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D
- d) Gweisg pils

Os dewisoch chi unrhyw un o'r erthyglau uchod, esboniwch yr amgylchiadau a sut y gallai'r troseddau arfaethedig effeithio arnoch. (Uchafswm 250 o eiriau)

C9. Y tu allan i fusnes, ydy eich bywyd yn cynnwys defnyddio unrhyw un o'r canlynol ar gyfer gweithgareddau cyfreithlon? (Ticiwch bopeth sy'n berthnasol.)

- a) Adrannau cudd mewn cerbydau
- b) Dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio
- c) Templedi digidol ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D
- d) Gweisg pils

Os dewisoch chi unrhyw un o'r erthyglau uchod, esboniwch yr amgylchiadau a sut y gallai'r troseddau arfaethedig effeithio arnoch. (Uchafswm 250 o eiriau)

C10. [Ar gyfer busnesau] Yn eich gweithgareddau busnes, faint o'r canlynol wnaethoch chi eu) gwerthu /cyflenwi ii) prynu iii) defnyddio, ym mhob blwyddyn rhwng 2017 - 2021?

- a) Adrannau cudd mewn cerbydau
- b) Dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio

- c) Templedi digidol ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D
- d) Gweisg pils

C11. [Ar gyfer busnesau] Beth oedd gwerth eich trosiant yn benodol i unrhyw un o'r erthyglau isod ym mhob blwyddyn o 2017 – 2021?

- a) Adrannau cudd mewn cerbydau
- b) Dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio
- c) Templedi digidol ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D
- d) Gweisg pils

C12. [Ar gyfer busnesau] Beth fyddai effaith Mesur 1, Opsiynau 1 a 2 ar eich busnes neu sefydliad pe baen nhw'n dod i rym? Rhowch amcangyfrifon ar unrhyw gostau neu fuddion, os yn bosib. (Uchafswm 250 o eiriau yr un).

- a) Mesur 1, Opsiwn 1 (trothwy is ac erthyglau penodedig)
- b) Mesur 1, Opsiwn 2 (trothwy uwch a dim erthyglau penodedig)

C13. [Ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith] Rhowch ffigurau blynyddol ym mhob blwyddyn o 2017-2021 ar gyfer: faint o'r erthyglau canlynol y daethoch ar eu traws a faint o ymchwiliadau oedd yn ymwneud â defnyddio'r erthyglau canlynol:

- a) Adrannau cudd mewn cerbydau
- b) Dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio
- c) Templedi digidol ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u hargraffu â 3D
- d) Gweisg pils

C14. Ydych chi'n credu y dylai pwerau sifil newydd fod ar gael i ganiatáu atafaelu a fforffedu erthyglau a fwriedir i'w defnyddio mewn troseddu difrifol?(Ticiwch un.)

- a) Ydw, ochr yn ochr â thrangwyddau troseddol newydd
- b) Ydw, yn lle tramgwyddau troseddol newydd
- c) Nac ydw
- d) Ddim yn gwybod

Rhowch ragor o fanylion am y rheswm dros eich ateb (Uchafswm 250 o eiriau).

C15.Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu wybodaeth bellach i ychwanegu at yr asesiad effaith i lywio'r cynigion deddfwriaethol hyn? (Ticiwch un.)

- a) Oes
- b) Nac oes

Rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

Mesur 2: Cynigion i gryfhau a gwella gweithrediad Gorchmynion Atal Troseddu Difrifol (SCPOs)

Y drefn gyfreithiol bresennol

Darperir ar gyfer Gorchmynion Atal Troseddu Difrifol (SCPOs) o dan Ran 1 o Ddeddf Troseddu Difrifol 2007¹⁵ ("Deddf 2007"). Mae SCPOs yn orchmynion ataliol sifil sy'n gosod gwaharddiadau, cyfyngiadau a gofynion wedi'u teilwra ar berson¹⁶ am gyfnod o hyd at bum mlynedd i atal neu amharu ar eu rhan mewn troseddu difrifol. Gallai telerau SCPO ymwneud ag, er enghraifft: ymdriniaethau busnes ac ariannol, defnyddio adeiladau neu eitemau, darparu nwyddau neu wasanaethau, cyflogi staff, cysylltiad ag unigolion, dull cyfathrebu neu deithio¹⁷. Mae torri SCPO yn drosedd sy'n cario uchafswm cosb o bum mlynedd o garchar.

Gall SCPO gael ei wneud naill ai gan Lys y Goron yn dilyn euogfarn neu gan yr Uchel Lys yn absenoldeb euogfarn. Gall y naill lys neu'r llall ond wneud SCPO os oes ganddo sail resymol i gredu y byddai gorchmyn yn amddiffyn y cyhoedd trwy atal, cyfyngu neu amharu ar gysylltiad gan y person mewn troseddu difrifol. Yng Nghymru a Lloegr, gellir gwneud cais am SCPO, dim ond gan y CPS, y Swyddfa Twyll Difrifol (SFO), neu, mewn achosion sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yn unig, yr heddlu.

Mae SCPOs ar gael ledled y DU. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad hwn yn berthnasol i Gymru a Lloegr yn unig.

Pam mae angen i ni newid y ddeddfwriaeth bresennol?

Mae SCPOs yn arf pwerus ar gyfer atal ac amharu ar weithgareddau'r troseddwr niwed uchaf sy'n ymwneud â throseddu difrifol. Fodd bynnag, nid yw'r gorchmynion yn cael eu defnyddio i'r uchafswm effaith ar hyn o bryd.

Er enghraifft, rhwng 2011 a 2021, dim ond dau gais a wnaed i'r Uchel Lys am SCPO yn absenoldeb euogfarn, gyda dim ond un yn llwyddiannus, o'i gymharu â chyfanswm o 1057 SCPOs yn cael eu gwneud yn Llys y Goron ar euogfarn yn yr un cyfnod¹⁸. Mae hyn yn sylweddol is na'r hyn a ragwelwyd gan y Senedd pan basiodd Ddeddf 2007¹⁹.

¹⁵ Deddf Troseddu Difrifol 2007: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/27/part/1>

¹⁶ Mae "person" yn cynnwys cyrff corfforaethol, partneriaethau a chymdeithasau heb eu hymgorffori yn ogystal ag unigolion.

¹⁷ Cyhoeddir enghreifftiau eraill o ddarpariaethau awgrymedig y gall SCPO eu gosod yn Llyfrgell Cyneiliau SCPO Gwasanaeth Erllyn y Goron (CPS): https://www.cps.gov.uk/sites/default/files/documents/legal_guidance/SCPO-precedent-library.pdf

¹⁸ Mae'r ffigyrau hyn yn arbrofol, wedi'u seilio ar wybodaeth rheoli HMCTS ac nid ydynt yn cyfateb i ystadegau swyddogol a gyhoeddwyd gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

¹⁹ Mae Nodiadau Esboniadol Deddf 2007 yn nodi mai'r "prif lwybr ar gyfer gwneud gorchmyn fydd cais i'r Uchel Lys". Yn ogystal, yng Nghyfnod Pwyllgor Arglwyddi'r Mesur Troseddu Difrifol, dywedodd y Farwnes Scotland o Asthal fod partneriaid gweithredol wedinodi y gall fod 25 neu 30 o orchmynion o'r fath – gweler

Yn ogystal, mae monitro a gorfodi SCPOs yn anghyson ar hyn o bryd ar draws gwahanol heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Canfu adroddiad Effeithiolrwydd Heddlu HMICFRS PEEL 2016 mai dim ond 13 o'r 43 heddlu oedd â threfniadau clir ar waith ar gyfer monitro SCPOs²⁰. Gallai safoni'r wybodaeth bersonol y mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn ei chofnodi mewn perthynas ag unigolion sy'n destun SCPO helpu i wella cysondeb rheoli achosion o'r garfan hon.

Nod y cynigion ar SCPOs yn yr ymgynghoriad hwn yw:

1. **Gwella'r broses ymgeisio ar gyfer SCPOs**, fel eu bod yn fwy hygyrch i ymarferwyr rheng flaen yn yr ystod lawn o amgylchiadau y gallant fod yn briodol ynddynt; a
2. **Gwella monitro a gorfodi SCPOs yn barhaus**, i alluogi rheoli'r rhai sy'n ymwneud â throeddu difrifol yn agosach ac i gefnogi rheoli achosion mwy cyson o'r garfan hon gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith.

Mae data gan yr NCA ar orchmynion ategol yn dangos bod unigolion sy'n ddarostyngedig i SCPOs a wnaed ar euogfarn yn ymwneud â phob math o droseddau difrifol a threfnedig, gyda'r crynhoad mwyaf o droseddau yn digwydd ym meysydd troseddau cyffuriau, gwyngalchu arian, twyll a throeddu arfau tanio²¹. Felly gallai gwelliannau i'r drefn SCPO gyfrannu tuag at fynd i'r afael ag ystod eang o fathau o fygythiadau a lleihau'r niwed a ddioddefir gan sefydliadau, busnesau, cymunedau ac unigolion. Mae hyn yn cyd-fynd â'r ymrwymiad yn Adolygiad Integredig 2021 i gryfhau'r ymateb i'r bygythiadau troseddu difrifol a threfnedig mwyaf dybryd sy'n wynebu'r DU ar hyn o bryd a lleihau'r bregusrwydd i'r bygythiadau hyn yn y tymor hirach.

Byddai cynigion deddfwriaethol ar SCPOs yn y ddogfen ymgynghori hon hefyd yn helpu i gyflawni amcanion allweddol eraill y llywodraeth, megis ymrwymiad y maniffesto i gryfhau'r NCA²² a'r ymrwymiad yn Adolygiad Integredig 2021 i gryfhau'r NCA ac i gynyddu capasiti plismona rhanbarthol a lleol²³ fel y gall gorfodi'r gyfraith fynd i'r afael â'r bygythiadau lluosog y mae'r DU yn eu hwynebu ar hyn o bryd.

Hansard, Cyfrol 690, 7 Mawrth 2007: [https://hansard.parliament.uk/Lords/2007-03-07/debates/07030790000002/SeriousCrimeBill\(HL\)](https://hansard.parliament.uk/Lords/2007-03-07/debates/07030790000002/SeriousCrimeBill(HL))

²⁰ Arolygiaeth Cwnstabiliaeth ei Mawrhydi, PEEL: Effeithiolrwydd yr Heddlu 2016, Mawrth 2017: <https://www.justiceinspectores.gov.uk/hmicfrs/wp-content/uploads/peel-police-effectiveness-2016.pdf>
Gweler tudalen 112.

²¹ Asiantaeth Troseddu Cenedlaethol, Gorchmynion Ategol: <https://nationalcrimeagency.gov.uk/who-we-are/publications/495-nca-ancillary-order-register-1>

²² Maniffesto'r Blaid Geidwadol ac Unoliaethol 2019: https://assets-global.website-files.com/5da42e2cae7ebd3f8bde353c/5dda924905da587992a064ba_Conservative%202019%20Manifisto.pdf – gweler tudalen 19.

²³ Swyddfa'r Cabinet, Prydain Fyd-eang mewn Oes Gystadleuol: yr Adolygiad Integredig o Ddiogelwch, Amddiffyn, Datblygu a Pholisi Tramor, Mawrth 2021: <https://www.gov.uk/government/publications/global-britain-in-a-competitive-age-the-integrated-review-of-security-defence-development-and-foreign-policy> - Gweler Ail Fwled ar dudalen 83.

Mesurau i wella'r broses ymgeisio ar gyfer SCPOs

Opsiwn 1: Galluogi CThEF, yr NCA, yr heddlu (ym mhob achos, nid dim ond achosion sy'n gysylltiedig â therfysgaeth) a Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig (BTP) i wneud cais i'r Uchel Lys am SCPO, yn dilyn ymgynghori â'r CPS

Gall SCPO gael ei wneud gan yr Uchel Lys yn absenoldeb euogfarn droseddol. O dan y ddeddfwriaeth bresennol, yng Nghymru a Lloegr gellir gwneud cais i'r Uchel Lys am SCPO dim ond gan y Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus, Cyfarwyddwr y Swyddfa Twyll Difrifol (SFO) neu, mewn achosion sy'n gysylltiedig â therfysgaeth yn unig, yr heddlu²⁴. Os yw asiantaeth arall fel CThEF, yr NCA neu BTP yn dymuno cael SCPO yn yr Uchel Lys, neu os yw'r heddlu'n dymuno gwneud hynny mewn achos nad yw'n gysylltiedig â therfysgaeth, rhaid iddynt wneud atgyfeiriad at y CPS (neu'r SFO fel y bo'n briodol²⁵) i wneud cais ar eu rhan.

Nod ychwanegu CThEF, yr NCA, BTP a'r heddlu at y rhestr o bartion sy'n gallu gwneud cais i'r Uchel Lys ar gyfer SCPO yw sicrhau y gall yr asiantaethau rheng flaen sy'n arwain ymchwiliadau i ymddygiad perthnasol wneud cais uniongyrchol i'r Uchel Lys lle ystyrir bod SCPO yn briodol. Mae'n debygol, mewn llawer o achosion lle nad yw achosion troseddol yn cael eu dilyn y bydd yr asiantaethau hyn yn y sefyllfa orau i arwain y broses o wneud cais am SCPO, gan y bydd ganddynt eisoes wybodaeth fanwl am yr achos a'r arbenigedd pwnc technegol perthnasol. Byddai'r mesur hwn yn symleiddio'r broses ymgeisio SCPO bresennol a gall hefyd helpu i sicrhau y gellir defnyddio SCPOs Uchel Lys yn amlach lle bo hynny'n briodol²⁶. O dan y cynnig hwn, yn ôl y gyfraith byddai'n ofynnol i CThEF, yr NCA, BTP a'r heddlu ymgynghori â'r CPS cyn gwneud cais i'r Uchel Lys ar gyfer SCPO.

Mae'r CPS yn chwarae rhan hanfodol wrth gael gorchmynion ategol fel SCPOs, gan gynnwys: sefydlu bod y profion cyfreithiol ar gyfer eu rheidrwydd yn cael eu dangos; nodi amodau posibl i'w gosod; gwerthuso'r risg yn y dyfodol a achosir gan unigolion a baich adnoddau monitro'r gorchmyn; a sicrhau nad yw'r gorchmynion yn cael eu defnyddio fel dewis arall yn lle erlyn lle mae erlyn yn opsiwn ymarferol. Pe bai'r cynnig hwn yn dod yn statud, byddai'r Swyddfa Gartref yn gweithio'n agos gyda'r CPS, CThEF, yr NCA, BTP a'r heddlu i roi Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MoU) ar waith yn nodi fframwaith ffurfiol ar gyfer y broses ymgynghori hon, er mwyn sicrhau dealltwriaeth a rennir ymhlith pob parti o'u rolau a'u cyfrifoldebau yn y broses o wneud cais i'r Uchel Lys am SCPO.

²⁴ Diwygiodd Adran 43 ac Atodlen 12 i Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Dedfrydu 2021 Ddeddf Troseddau Difrifol 2007 i alluogi'r heddlu i wneud cais i'r Uchel Lys am SCPO mewn achosion sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, ochr yn ochr ag ymgynghoriad gorfodol gyda'r awdurdod erlyn: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/27/contents>

²⁵ I'w nodi: Yn anecdotaidd, yn seiliedig ar ymgysylltu mewnol cychwynnol â'r Swyddfa Twyll Difrifol (SFO), nid yw'r SFO wedi gwneud cais i'r Uchel Lys am SCPO hyd yma.

²⁶ Er enghraifft: ble mae gan berson euogfarn dramor berthnasol ac mae angen diogelu'r cyhoedd tra bod y person hwnnw yn y DU; os oes tystiolaeth o ymddygiad "sy'n debygol o hwyluso comisiynu trosedd ddifrifol" yn unol ag adran 2(1)(c) o Ddeddf 2007; pan gafwyd person yn euog o'r blaen gan Lys y Goron, ond am reswm da ni wnaeth Llys y Goron SCPO bryd hynny; pan fo person wedi ei gael yn ddieuog o drosedd berthnasol, ond fe hystyrir o hyd ei fod yn peri risg i'r cyhoedd.

Cwestiynau i ymgylgoreion:

C16. Rydym yn cynnig galluogi CThEF, yr NCA, yr heddlu (mewn achosion ar wahân i derfysgaeth²⁷) a BTP i wneud cais yn uniongyrchol i'r Uchel Lys am SCPO. Ydych chi'n cytuno? (Ticiwch un.)

- a) HFRC (Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod)
- b) Yr NCA (Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod)
- c) Yr heddlu (mewn achosion ar wahân i derfysgaeth) (Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod)
- d) BTP (Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod)

Esboniwch eich ateb(ion). (Uchafswm 250 o eiriau)

C17. Ar wahân i CThEF, yr NCA, yr heddlu, BTP, y CPS a'r SFO, oes unrhyw asiantaethau eraill a ddylai, yn eich barn chi, allu gwneud cais i'r Uchel Lys am SCPO?

Rhestrwch.

Esboniwch eich ateb(ion). (Uchafswm 250 o eiriau)

Opsiw 2: Galluogi Llys y Goron i wneud SCPO ar ryddfarn ar gais gan y CPS neu'r SFO

Ar hyn o bryd dim ond wrth ddelio â pherson sydd wedi'i gael yn euog o drosedd ddifrifol y gall Llys y Goron wneud SCPO, nid lle mae'r person hwnnw wedi'i gael yn ddieuog. Mae hyn yn golygu, pan fo person yn cael ei ryddhau gan Lys y Goron, ond mae tystiolaeth o hyd eu bod wedi bod yn rhan o drosedd difrifol ac mae sail resymol dros gredu y byddai SCPO yn amddiffyn y cyhoedd drwy atal, cyfyngu neu amharu ar ran y person hwnnw mewn trosedd difrifol, mae'n rhaid i achosion ddechrau eto ar hyn o bryd gyda chais newydd i'r Uchel Lys.

Mae gwahanol resymau pam y gellir cael person yn ddieuog o drosedd ddifrifol, ond lle gallai SCPO fod yn briodol o hyd ar gyfer diogelu'r cyhoedd. Er enghraifft, lle nad yw'r dystiolaeth a ddarparwyd gan yr erlyniad yn bodloni'r llys y tu hwnt i amheuaeth resymol bod trosedd ddifrifol wedi'i chyflawni, ond mae tystiolaeth bod person wedi cynnal ei hun mewn ffordd a oedd yn debygol o hwyluso comisiynu trosedd ddifrifol ganddyn nhw neu berson arall²⁸ ac ystyrir bod y person yn berygl i'r cyhoedd.

²⁷ Mae Adran 8 o Ddeddf Troseddau Difrifol 2007, fel y'i diwygiwyd gan adran 43 ac Atodlen 12 i Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Dedfrydu 2021, eisoes yn galluogi'r heddlu i wneud cais i'r Uchel Lys am SCPO mewn achosion sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, ochr yn ochr ag ymgynghoriad gorfodol gyda'r awdurdod erlyn: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/27/contents>.

²⁸ O dan adran 2(1)(c) o Ddeddf Troseddau Difrifol 2007 byddai canfyddiad o'r fath yn gyfystyr â bod yn gysylltiedig â throseddau difrifol.

Byddai'r mesur arfaethedig hwn yn ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i gael SCPO lle bo hynny'n briodol. Mewn amgylchiadau o'r fath, Llys y Goron fyddai yn y sefyllfa orau i benderfynu a ddylid gwneud SCPO yn erbyn person y mae newydd ei gael yn ddiuog, o ystyried mai'r llys fydd wedi clywed yr holl dystiolaeth sy'n ymwneud ag ymddygiad y person.

Mae enghreifftiau eraill o ddarpariaethau statudol sy'n caniatáu i orchmynion llys gael eu gwneud yn erbyn unigolion ar ryddfarn mewn cyd-destunau eraill, megis gorchmynion atal o dan Ddeddf Diogelu rhag Aflonyddu 1997²⁹ a Gorchmynion Amddiffyn Cam-drin Domestig (DAPOs) o dan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021³⁰.

Cwestiwn i ymgylgoreion:

C18. Rydym yn cynnig galluogi Llys y Goron i wneud SCPO ar ryddfarn am drosedd ddifrifol. Ydych chi'n cytuno? (Ticiwch un.)

- a) Ydw
- b) Nac ydw
- c) Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb. (Uchafswm 250 o eiriau)

Mesurau i wella monitro a gorfodi SCPOs gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith

Opsiwn 3: Rhoi pŵer cyflym i'r llysoedd osod monitro electronig ("tagio") fel amod SCPO

O dan Ddeddf 2007, gall SCPOs gynnwys unrhyw ofynion y mae'r llys yn ystyried yn briodol er mwyn diogelu'r cyhoedd drwy atal, cyfyngu neu amharu ar gysylltiad gan y person dan sylw â throsedd difrifol. Fodd bynnag, yn absenoldeb pŵer deddfwriaethol cyflym i wneud hynny, gallai'r amgylchiadau lle gallai llys ystyried gosod gofyniad monitro electronig (neu "tagio") fod yn gyfyngedig³¹ - dyna pam rydym yn cynnig diwygio Deddf 2007 i ddarparu pŵer deddfwriaethol cyflym i'r llysoedd osod monitro electronig fel term o SCPO.

Gellid defnyddio tagio testun SCPO i fonitro eu cydymffurfiaeth â thelerau perthnasol eraill y gorchymyn, megis lle gosodir parth gwahardd/cynnwys neu gyrffyw. Er enghraifft, gellir defnyddio technoleg Amledd Radio i fonitro cyrffyw mewn lleoliad penodol yn ystod cyfnod amser diffiniedig, a gellir defnyddio technoleg monitro lleoliad GPS i anfon rhybudd os yw'r testun yn mynd i mewn i barth gwahardd diffiniedig. Gall y mesurau hyn atal y testun rhag gysylltu â phobl benodol, neu o fynd i leoliadau penodol lle gallent fod yn rhan o weithgarwch troseddol. Gellid defnyddio tagio hefyd i fonitro lleoliad y testun yn barhaus trwy dechnoleg monitro lleoliad GPS, a adnabyddir fel "monitro llwybrau". Lle mae monitro llwybr yn ei le, byddai'r asiantaeth sy'n gyfrifol am reoli'r SCPO yn gallu gofyn yn ôl-weithredol am weld

²⁹ Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1997/40/contents>

³⁰ Deddf Cam-drin Domestig 2021: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2021/17/contents>

³¹ Gweler *R (ar gais Richards) v. Llys Ynadon Teesside a Phrif Gwnstabl Heddlu Cleveland* (2015) 179 JP 119: <https://www.bailii.org/ew/cases/EWCA/Civ/2015/7.html>

data ar, er enghraifft, lleoliad a symudiadau'r testun yn ystod cyfnod amser penodedig. Gallai'r data hyn gynorthwyo asiantaethau gorfodi'r gyfraith i ymchwilio i doriadau posibl o'r SCPO, cefnogi erlyniadau am dorri, neu gefnogi ymchwiliadau ehangach lle mae testun y SCPO dan amheuaeth. Byddai monitro llwybr yn ymyrraeth fwy ymwithiol, yn enwedig pe bai'n cael ei gynnwys fel gofyniad i SCPO a wnaed gan yr Uchel Lys yn absenoldeb euogfarn, oherwydd gall atal y testun rhag ymgymryd â gweithgareddau cyfreithlon nad ydynt yn ffurfio toriad o'u SCPO y maent am aros yn breifat. Felly, gall monitro llwybr fod yn briodol dim ond mewn perthynas â'r unigolion risg uchaf un.

Mae gofynion SCPO yn cael eu penderfynu gan y llys yn seiliedig ar ffeithiau'r achos, yn dibynnu ar natur gweithgarwch y person a'r risg y maent yn ei hachosi i'r cyhoedd. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu mai dim ond cyfran fechan o SCPOs sydd ar hyn o bryd yn cynnwys telerau y gellir eu monitro trwy dagio. Fodd bynnag, lle mae'r llys yn fodlon bod gosod monitro electronig yn ymyrraeth gymesur oherwydd lefel y risg a achosir gan y person (ymysg ffactorau eraill), byddai monitro electronig yn gwella gallu asiantaethau gorfodi'r gyfraith i fonitro cydymffurfiaeth â'r SCPO, rheoli'r risg a achosir gan yr unigolion risg uchaf un a darparu tystiolaeth os digwydd bod yr SCPO yn cael ei dorri³².

Fel y nodwyd uchod, mae monitro a gorfodi SCPOs wedi bod yn anghyson ar draws heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae angen felly cefnogi rheoli risg yn well ar unigolion y mae asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn credu sydd â'r bwriad a'r gallu i droseddu neu aildroseddu ac i wella monitro a gorfodi SCPOs. Fel gyda gofynion eraill SCPO, byddai gan y llys y pŵer i osod monitro electronig yn unig lle bo hynny'n briodol. Wrth wneud y penderfyniad hwn, byddai'r llys bob amser yn gweithredu o fewn yr amddiffyniad a roddwyd gan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol drwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998, gan sicrhau y byddai monitro electronig ond yn cael ei ddefnyddio pan fo angen ac yn gymesur o dan holl amgylchiadau'r achos. Mesur diogelu pellach y gellid ei ystyried fyddai darparu na all y llys ond gosod gofyniad monitro electronig am gyfnod penodedig uchaf, y gellid ei ymestyn gan gais i amrywio'r SCPO os oes angen.

Byddai'r Swyddfa Gartref hefyd yn gweithio'n agos gyda MoJ, HMPPS, arweinydd NPCC ar gyfer monitro electronig a phartneriaid gweithredol eraill i sicrhau bod unrhyw ddarpariaethau deddfwriaethol newydd yn cynnwys y mesurau diogelu ymarferol priodol. Gallai'r rhain gynnwys: darparu mai dim ond os yw'r trefniadau hyn ar gael yn lleol a lle mae'r darparwr lleol yn rhoi caniatâd y gellir gosod monitro electronig; darparu bod yn rhaid i SCPO sy'n cynnwys gofyniad monitro electronig nodi'r "swyddog cyfrifol" sy'n dderbynnydd data megis torri hysbysiadau mewn perthynas â'r gofyniad hwnnw ac sydd â chyfrifoldeb dros gymryd unrhyw gamau gorfodi; darparu bod yn rhaid i'r ymatebwr wneud eu hunain ar gael o fewn amserlen benodedig ar gyfer gosod, archwilio a/neu atgyweirio'r offer tagio a rhaid

32 Amcangyfrifir bod y cyfraddau presennol lle delir â thoriad ar SCPO trwy erlyniad tua 34 y cant. Mae hyn oherwydd ers 2017 bu 254 o erlyniadau hysbys am fethu â chydymffurfio ag SCPO tra bod tua 748 o SCPOs wedi'u gosod yn llwyddiannus. Mae cyfradd dorri SCPOs wedi'i chyfrifo yn seiliedig ar ffigurau sy'n dod o Gylchgran Chwarterol y Weinyddiaeth Gyfiawnder: Rhagfyr 2020, sy'n cwmpasu'r cyfnod rhwng 2017 a 2020: <https://www.gov.uk/government/statistics/criminal-justice-system-statistics-quarterly-december-2020>

peidio ag ymyrryd â modd gweithio'r offer EM; a'i gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth gyhoeddi cod ymarfer yn ymwneud â phrosesu data a gasglwyd wrth fonitro electronig a osodwyd o dan SCPO.

Cwestiynau i ymgylgoreion

C19. Rydym yn cynnig darparu pŵer cyflym i'r llysoedd osod monitro electronig (neu "dagio") fel amod SCPO at ddibenion monitro cydymffurfiaeth â thelerau perthnasol eraill y gorchymyn. Ydych chi'n cytuno? (Ticiwch un.)

- a) Ydw
- b) Nac ydw
- c) Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb. (Uchafswm 250 o eiriau)

C20. [Ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith] Yn eich profiad chi, yn fras pa gyfran o SCPOs sy'n gosod amodau y byddai'n berthnasol i ddefnyddio monitro electronig i fonitro cydymffurfiaeth â nhw? (Ticiwch un.)

- a) 100%
- b) 75%
- c) 50%
- d) 25%
- e) 0%

C21. Rydym yn cynnig darparu pŵer cyflym i'r llysoedd osod monitro electronig (neu "tagio") fel amod monitro llwybr annibynnol SCPO at ddibenion monitro lleoliad y testun. Byddai'r asiantaeth sy'n gyfrifol am reoli'r SCPO yn gallu gwneud cais ôl-weithredol i weld y data hyn. Ydych chi'n cytuno? (Ticiwch un.)

- a) Ydw, ar gyfer SCPOs a wnaed heb euogfarn ac ar gyfer SCPOs wedi'u gwneud ôl-euogfarn (yn Uchel Lys a Llys y Goron)
- b) Ydw, ar gyfer SCPOs wneud'u ôl-euogfarn yn unig (Llys y Goron yn unig)
- c) Nac ydw
- d) Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb. (Uchafswm 250 o eiriau)

C22. [Ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith] A fyddai argaeledd monitro electronig (neu "tagio") fel amod SCPO yn helpu asiantaethau gorfodi'r gyfraith i: monitro a gorfodi amodau perthnasol eraill y SCPO yn fwy effeithiol; canfod, ymchwilio ac erlyn mwy o doriadau'r amodau hyn; cynnydd mewn ymchwiliadau ehangach lle mae testun SCPO dan amheuaeth; a/neu reoli'r risg a achosir gan yr unigolion risg uchaf un? (Ticiwch un.)

- a) Byddai

- b) Na fyddai
- c) Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb. (Uchafswm 250 o eiriau)

Opsiwn 4: Darparu bod pob SCPO yn gosod set ragnodedig o ofynion hysbysu yn awtomatig

Fel y nodir uchod, gall SCPOs eisoes gynnwys unrhyw ofynion y mae'r llys yn ystyried yn briodol er mwyn diogelu'r cyhoedd drwy atal, cyfyngu neu amharu ar gysylltiad gan y person dan sylw â throseddau difrifol. Mae hyn yn cynnwys gofynion i hysbysu'r asiantaeth gorfodi'r gyfraith berthnasol o wybodaeth bersonol benodol, megis hysbysu am ddyfeisiau cyfathrebu, cerbydau, ffynonellau incwm, teithio y tu allan i'r DU, manau preswyl, safleoedd busnes a buddiannau busnes.

Y nod o'i gwneud yn ofynnol i bob SCPO osod set ragnodedig o ofynion hysbysu yw safoni'r wybodaeth bersonol a dderbyniwyd ac a gofnodwyd gan asiantaethau gorfodi'r gyfraith mewn perthynas ag unigolion sy'n ddarostyngedig i SCPO. Bydd hyn yn helpu i sicrhau mwy o gysondeb yn y ffordd y mae'r unigolion hyn yn cael eu rheoli a gwella gallu asiantaethau gorfodi'r gyfraith i reoli achosion SCPO yn rhagweithiol ac i rannu gwybodaeth â'i gilydd yn effeithiol.

Gallai'r gallu hwn fod yn arbennig o bwysig pan fydd unigolion sy'n ddarostyngedig i SCPO yn symud rhwng gwahanol ardaloedd daearyddol neu heddlu, neu rhwng gwahanol gamau o'r system cyfiawnder troseddol, megis rhwng y ddalfa a bod ar drwydded yn y gymuned.

O dan y cynnig hwn, byddai unrhyw ddeddfwriaeth yn y dyfodol yn nodi rhestr o ofynion hysbysu y mae'n rhaid i bob SCPO eu cynnwys. Gallai'r rhestr hon gynnwys, er enghraifft:

- enw a manylion llawn unrhyw arallenwau a ddefnyddir;
- cyfeiriad cartref a chyfeiriadau unrhyw breswylfeydd eilaidd;
- rhifau ffôn, cyfeiriadau e-bost ac enwau defnyddwyr ar-lein;
- rhif pasbort;
- rhifau cofrestru cerbydau;
- cyfrifon banc; a
- manylion cyflogaeth.

Pan wneir SCPO yn erbyn busnes neu gorfforaeth, yn hytrach nag yn erbyn unigolyn, gellid defnyddio rhestr wahanol o ofynion hysbysu rhagnodedig.

Fel y nodwyd uchod, mae monitro a gorfodi SCPOs wedi bod yn anghyson ar draws heddluoedd yng Nghymru a Lloegr. Mae angen felly gwella rheoli risg unigolion y mae

asiantaethau gorfodi'r gyfraith yn credu sydd â'r bwriad a'r gallu i droseddu neu aildroseddu ac i wella monitro a gorfodi SCPOs.

Pe bai'r cynnig hwn yn dod yn gyfraith, byddai'r rhestr o ofynion hysbysu ond yn cynnwys eitemau y mae cyfiawnhad clir ar eu cyfer.

Byddai'r Swyddfa Gartref yn gweithio i sicrhau bod unrhyw ddarpariaethau deddfwriaethol newydd yn cynnwys mesurau diogelu ymarferol priodol i atal dyblygu gofynion hysbysu, megis pan fo person sy'n dod yn ddarostyngedig i SCPO eisoes yn ddarostyngedig i ofynion hysbysu eraill o dan Ddeddf arall, neu fel rhan o amodau eu trwydded.

O dan y cynnig hwn, yn ychwanegol at y gofynion hysbysu rhagnodedig, byddai'r llys yn parhau i allu gosod unrhyw ofynion hysbysu pellach yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.

Mae eisoes gorchmynion sifil eraill sy'n gosod gofynion hysbysu gorfodol, fel Gorchmynion Amddiffyn rhag Stelcian (SPOs) o dan Ddeddf Amddiffyn rhag Stelcian 2019³³ a Gorchmynion Amddiffyn Cam-drin Domestig (DAPOs) o dan Ddeddf Cam-drin Domestig 2021³⁴.

Cwestiynau i ymgylgoreion

C23. Rydym yn cynnig darparu bod pob SCPO yn cynnwys set ragnodedig o ofynion hysbysu yn awtomatig.

(I'w nodi: O dan y cynnig hwn, yn ychwanegol at y gofynion hysbysu rhagnodedig, byddai'r llys yn dal i allu gosod gofynion hysbysu pellach yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.)

Ydych chi'n cytuno? (Ticiwch un.)

- a) Ydw
- b) Nac ydw
- c) Ddim yn gwybod

Esboniwch eich ateb. (Uchafswm 250 o eiriau)

C24. Ydych chi'n cytuno y dylid rhagnodi'r gofynion hysbysu canlynol ar gyfer pob SCPO fel safon o dan y cynnig hwn? (Ticiwch os gwelwch yn dda.)

- a) Enw llawn (Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod)
- b) Unrhyw arallenwau a ddefnyddir (Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod)
- c) Cyfeiriad y brif breswylfa (Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod)

³³ Deddf Amddiffyn rhag Stelcian 2019: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2019/9/contents/enacted>

³⁴ Deddf Cam-drin Domestig 2021: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2021/17/contents>

- d) Cyfeiriadau unrhyw breswylfeydd eilaidd (Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod)
- e) Rhif(au) ffôn (Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod)
- f) Cyfeiriad(au) E-bost (Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod)
- g) Enw(au) defnyddiwr ar-lein (Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod)
- h) Rhif(au) pasbort (Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod)
- i) Rhif(au) Cofrestru cerbydau (Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod)
- j) Cyfrifon banc (Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod)
- k) Manylion cyflogaeth (Ydw / Nac ydw / Ddim yn gwybod)
- l) Arall – Rhestrwch:

Esboniwch eich ateb(ion).(Uchafswm 250 o eiriau)

C25. A oes gennych unrhyw sylwadau, neu ragor o wybodaeth neu dystiolaeth i lywio unrhyw un o'r cynigion deddfwriaethol hyn ar SCPOs, neu ein Hasesiad o Effaith? (Ticiwch un.)

- a) Oes
- b) Nac oes

Rhowch fanylion. (Uchafswm 500 o eiriau)

C26. Oes unrhyw ffyrdd eraill y gellir gwella neu gryfhau'r ddeddfwriaeth ar gyfer SCPOs? (Ticiwch un.)

- a) Oes
- b) Nac oes
- c) Ddim yn gwybod

Rhowch fanylion (Uchafswm 500 o eiriau)

Amdanoch chi

Defnyddiwch yr adran hon i ddweud wrthym amdanoch eich hun

Enw llawn	
Teitl swydd neu gapasiti yr ydych yn ymateb i'r ymarfer ymgynghori hwn ynddo (er enghraifft, aelod o'r cyhoedd, asiantaeth gorfodi'r gyfraith, gweithiwr proffesiynol cyfreithiol, gweithiwr proffesiynol yn y diwydiant ac ati)	
Dyddiad	
Enw'r cwmni/sefydliad (os yw'n berthnasol)	
Cyfeiriad E-bost	
Cyfeiriad	
Cod post	
Os hoffech i ni gydnabod derbyn eich ymateb, ticiwch y blwch hwn	<input type="checkbox"/>
Cyfeiriad y dylid anfon y gydnabyddiaeth ato, os yw'n wahanol i'r hyn uchod	

Os ydych yn gynrychiolydd o grŵp, dywedwch wrthym enw'r grŵp a rhoi crynodeb o'r bobl neu'r sefydliadau rydych chi'n eu cynrychioli.

Holiadur

Byddem yn croesawu ymatebion i'r cwestiynau canlynol a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon:

Mesur 1: Troseddau newydd i droseddoli gwneud, addasu, cyflenwi, cynnig cyflenwi a meddu ar erthyglau i'w defnyddio mewn troseddu difrifol

C1.Ydych chi'n credu bod y troseddau presennol yn ddigon i fynd i'r afael â mater cyflenwi erthyglau i'w defnyddio mewn troseddu difrifol?(Ticiwch un.)

a)	Ydw, mae'r troseddau presennol yn ddigonol	
b)	Nac ydw, nid yw'r troseddau presennol yn ddigonol	
c)	Ddim yn gwybod	

Esboniwch eich ateb a rhowch dystiolaeth lle bo hynny'n bosibl, gan gynnwys ar raddfa a natur y mater.(Uchafswm 250 o eiriau)

--

C2.Pa un o'r cynigion am droseddau newydd ydych chi'n credu y dylid eu dilyn?(Ticiwch un.)

a)	Opsiwn 1 (trothwy is ac erthyglau penodedig)	
b)	Opsiwn 2 (trothwy uwch a dim erthyglau penodedig)	
c)	Dim un	
d)	Arall_____	

Os dewisoch chi 'Arall', esboniwch eich ateb. (Uchafswm 250 o eiriau)

C3. Pa erthyglau ydych chi'n credu y dylid eu rhestru ar gyfer opsiwn 1? (trothwy isel ac erthyglau penodedig) (Ticiwch bopeth sy'n berthnasol.)

a)	Adrannau cudd mewn cerbydau	
b)	Dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio	
c)	Templedi digidol ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D	
d)	Gweisg pils	
e)	Arall _____	

Os dewisoch chi 'Arall', rhowch fanylion. (uchafswm 250 o eiriau)

C4.Oes gennych chi unrhyw farn ar sut y dylid diffinio unrhyw un o'r erthyglau canlynol?

- a) Adrannau cudd
mewn cerbydau

Rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

- b) Dyfeisiau
cyfathrebu
soffistigedig
wedi'u
hamgryptio

Rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

- c) Templedi digidol ar
gyfer cydrannau
arfau tanio wedi'u
printio â 3D

Rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

- d) Gweisg pils

Rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

e) Arall _____

Rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

--

C5. Mae opsiynau 1 a 2 ill dau yn mynd i'r afael ag erthyglau i'w defnyddio mewn troseddu difrifol. At ddiben yr opsiynau hyn, beth ydych chi'n credul y dylai "troseddu difrifol" ei gynnwys? (Ticiwch un.)

a)	Troseddu'n gysylltiedig â throseddu difrifol a threfnedig <u>a</u> throseddau difrifol yn erbyn y person	
b)	<u>Dim ond</u> troseddu sy'n gysylltiedig â throseddu difrifol a threfnedig, <u>nid</u> throseddau difrifol yn erbyn y person	
c)	Arall _____	
d)	Ddim yn gwybod	

Os dewisoch chi 'Arall' rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

--

C6. Ydych chi'n credu y dylai fod amddiffyniad o "weithredu'n rhesymol" ar gael ar gyfer y troseddau hyn? (Ticiwch un)

a)	Ydw	
b)	Nac ydw	

c)	Arall _____	
d)	Ddim yn gwybod	

Os dewisoch chi 'Arall' rhowch fanylion. (Uchafswm250 o eiriau)

--

C7. [Ar gyfer busnesau] Faint o weithwyr sydd gan eich busnes?(Ticiwch un.)

a)	0-9 o weithwyr	
b)	10-49 o weithwyr	
c)	50 o weithwyr neu fwy	

Q8. [Ar gyfer busnesau] Ydy eich busnes yn cynnwys unrhyw un o'r erthyglau canlynol?
(Ticiwch bopeth sy'n berthnasol.)

a)	Adrannau cudd mewn cerbydau	
b)	Dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio	
c)	Templedi digidol ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D	
d)	Gweisg pils	

Os dewisoch chi unrhyw un o'r erthyglau uchod, esboniwch yr amgylchiadau a sut y gallai'r troseddau arfaethedig effeithio arnoch. (Uchafswm 250 o eiriau)

--

C9. Y tu allan i fusnes, ydy eich bywyd yn cynnwys defnyddio unrhyw un o'r canlynol ar gyfer gweithgareddau cyfreithlon?(Ticiwch bopeth sy'n berthnasol.)

a)	Adrannau cudd mewn cerbydau	
b)	Dyfeisiau cyfathrebu wedi'u hamgryptio soffistigedig	
c)	Templedi digidol ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D	
d)	Gweisg pill	

Os dewisoch chi unrhyw un o'r erthyglau uchod, esboniwch yr amgylchiadau a sut y gallai'r troseddau arfaethedig effeithio arnoch.(Uchafswm 250 o eiriau)

C10.[Ar gyfer busnesau] C10. [Ar gyfer busnesau] Yn eich gweithgareddau busnes, faint o'r canlynol wnaethoch chi eu) gwerthu /cyflenwi ii) prynu iii) defnyddio, ym mhob blwyddyn rhwng 2017 - 2021?

- a) Adrannau cudd mewn cerbydau
- b) Dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio
- c) Templedi digidol ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D
- d) Gweisg pils

Erthygl	Nifer o erthyglau ym mhob blwyddyn				
	2017	2018	2019	2020	2021
a) Adrannau cudd mewn cerbydau					
i) Gwerthu / cyflenwi					
ii) Prynu					
iii) Defnyddio					
b) Dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio					
i) Gwerthu / cyflenwi					
ii) Prynu					
iii) Defnyddio					
c) Templed ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D					
i) Gwerthu / cyflenwi					
ii) Prynu					

iii) Defnyddio					
d) Gweisg pils					
i) Gwerthu / cyflenwi					
ii) Prynu					
iii) Arfer					

C11. [Ar gyfer busnesau] Beth oedd gwerth eich trosiant yn benodol i unrhyw un o'r erthyglau isod ym mhob blwyddyn o 2017 – 2021?

Erthygl	Gwerth y trosiant ym mhob blwyddyn (£)				
	2017	2018	2019	2020	2021
ii) Adrannau cudd mewn cerbydau					
iii) Dyfeisiau cyfathrebu soffistigedig wedi'u hamgryptio					
iv) Templed ar gyfer cydrannau arfautanio wedi'u					

printio â 3D					
v) Gweisg pils					

C12. [Ar gyfer busnesau] Beth fyddai effaith Mesur 1, Opsiynau 1 a 2 ar eich busnes neu sefydliad pe baen nhw'n dod i rym? Rhowch amcangyfrifon ar unrhyw gostau neu fuddion, os yn bosib. (Uvchafswm 250 o eiriau yr un).

a) Mesur 1, Opsiwn 1 (trothwy is ac erthyglau penodedig)

b) Mesur 1, Opsiwn 2 (trothwy uwch a dim erthyglau penodedig)

C13. [Ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith] Rhowch ffigurau blynyddol ym mhob blwyddyn o 2017 - 2021 ar gyfer: faint o'r erthyglau canlynol y daethoch ar eu traws a faint o ymchwiliadau oedd yn ymwneud â'r erthyglau canlynol:

Erthygl	Nifer o erthyglau wedi dod ar eu traws ym mhob blwyddyn				
	2017	2018	2019	2020	2021
a) Adrannau cudd mewn cerbydau					
b) Dyfeisiau cyfathrebu diogel sy'n benodedig yn droseddol					

c) Templedi digidol ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D					
d) Gweisg pils					

Erthygl	Nifer yr ymchwiliadau ymhob blwyddyn				
	2017	2018	2019	2020	2021
e) Adrannau cudd mewn cerbydau					
f) Dyfeisiau cyfathrebu diogel sy'n benodedig yn droseddol					
g) Templedi digidol ar gyfer cydrannau arfau tanio wedi'u printio â 3D					
h) Gweisg pils					

C14. Ydych chi'n credu y dylai pwerau sifil newydd fod ar gael i ganiatáu atafaelu a fforffedu erthyglau a fwriedir i'w defnyddio mewn troseddau difrifol? (Ticiwch un.)

a)	Ydw, ochr yn ochr â throeddau newydd	
b)	Ydw, yn lle troseddau newydd	
c)	Nac ydw	
d)	Ddim yn gwybod	

Rhowch ragor o fanylion am y rheswm dros eich ateb (Uchafswm 250 o eiriau).

C15. Oes gennych unrhyw sylwadau, neu ragor o wybodaeth neu dystiolaeth i ychwanegu at yr asesiad effaith i lywio'r cynigion deddfwriaethol hyn?(Ticiwch un.)

a)	Oes	
b)	Nac oes	

Rhowch fanylion. (Uchafswm 250 o eiriau)

Mesur 2: Cynigion i gryfhau a gwella gweithrediad Gorchmynion Atal Troseddau Difrifol (SCPOs)

C16.Rydym yn cynnig galluogi CThEF, yr NCA, yr heddlu (mewn achosion ar wahân i derfysgaeth³⁵) a BTP i wneud cais yn uniongyrchol i'r Uchel Lys am SCPO. Ydych chi'n cytuno?(Ticiwch os gwelwch yn dda.)

	Asiantaeth:	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod
a)	CThEF			
b)	Yr NCA			
c)	Yr heddlu (mewn achosion ar wahân i derfysgaeth)			
d)	BTP			

Esboniwch eich ateb(ion). (Uchafswm 250 o eiriau)

³⁵ Mae Atodlen 12 o Ddeddf Gwrthderfysgaeth a Dedfrydu 2021 yn galluogi'r heddlu i wneud cais i'r Uchel Lys am SCPO mewn achosion sy'n gysylltiedig â therfysgaeth, ochr yn ochr ag ymgynghoriad gorfodol gyda'r awdurdod erlyn: <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2007/27/contents>.

C17.Ar wahân i CThEF, yr NCA, yr heddlu, BTP, y CPS a'r SFO, oes unrhyw asiantaethau eraill a ddylai, yn eich barn chi, allu gwneud cais i'r Uchel Lys ar gyfer SCPO?

Rhestrwch.

Esboniwch eich ateb(ion).(Uchafswm 250 o eiriau)

C18.Rydym yn cynnig galluogi Llys y Goron i wneud SCPO ar ryddfarn am drosedd ddifrifol. Ydych chi'n cytuno?(Ticiwch un.)

a)	Ydw	
b)	Nac ydw	
c)	Ddim yn gwybod	

Esboniwch eich ateb. (Uchafswm 250 o eiriau)

C19. Rydym yn cynnig darparu pŵer cyflym i'r llysoedd osod monitro electronig (neu "dagio") fel cyflwr SCPO at ddibenion monitro cydymffurfiaeth â thermau perthnasol eraill y gorchymyn. Ydych chi'n cytuno?(Ticiwch un.)

a)	Ydw	
b)	Nac ydw	
c)	Ddim yn gwybod	

Esboniwch eich ateb. (Uchafswm 250 o eiriau)

C20. [Ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith] Yn eich profiad chi, yn fras pa gyfran o SCPOs sy'n gosod amodau y byddai'n berthnasol i ddefnyddio EM i fonitro cydymffurfiaeth â nhw? (Ticiwch un.)

a)	100%	
b)	75%	
c)	50%	
d)	25%	
e)	0%	

C21. Rydym yn cynnig darparu pŵer cyflym i'r llysoedd osod monitro electronig (neu "dagio") fel amod annibynnol o SCPO at ddibenion monitro lleoliad y testun. Byddai'r asiantaeth sy'n gyfrifol am reoli'r SCPO yn gallu gwneud cais ôl-weithredol i weld y data hyn. Ydych chi'n cytuno? (Ticiwch un.)

a)	Ydw, ar gyfer SCPOs a wneir heb euogfarn <u>ac</u> ar gyfer SCPOs a wneir ôl-euogfarn (yn yr Uchel Lys a Llys y Goron)	
b)	Ydw, ar gyfer SCPOs a wneir ôl-euogfarn <u>yn unig</u> (<u>Llys y Goron yn unig</u>)	
c)	Nac ydw	
d)	Ddim yn gwybod	

Esboniwch eich ateb. (Uchafswm 250 o eiriau)

C22. [Ar gyfer asiantaethau gorfodi'r gyfraith] A fyddai argaeledd monitro electronig (neu "tagio") fel amod SCPO yn helpu asiantaethau gorfodi'r gyfraith i: monitro a gorfodi amodau perthnasol eraill y SCPO yn fwy effeithiol; canfod, ymchwilio ac erlyn mwy o doriadau ar yr amodau hyn; symud ymchwiliadau ehangach ymlaen lle mae testun SCPO yn berson dan amheuaeth; a/neu rheoli'r risg a achosir gan yr unigolion risg uchaf un?(Ticiwch un.)

a)	Byddai	
b)	Na fyddai	
c)	Ddim yn gwybod	

Esboniwch eich ateb. (Uchafswm 250 o eiriau)

C23. Rydym yn cynnig darparu bod pob SCPO yn gosod set ragnodedig o ofynion hysbysu yn awtomatig.

(I'w nodi: O dan y cynnig hwn, yn ychwanegol at y gofynion hysbysu rhagnodedig, byddai'r llys yn dal i allu gosod gofynion hysbysu pellach yn dibynnu ar amgylchiadau'r achos.)

Ydych chi'n cytuno? (Ticiwch un)

a)	Ydw	
b)	Nac ydw	
c)	Ddim yn gwybod	

Esboniwch eich ateb. (Uchafswm 250 o eiriau)

C24. Ydych chi'n cytuno y dylid rhagnodi'r gofynion hysbysu canlynol ar gyfer pob SCPO fel safon o dan y cynnig hwn?(Ticiwch os gwelwch yn dda.)

	Gwybodaeth bersonol, gan gynnwys unrhyw newidiadau i'r wybodaeth hon:	Ydw	Nac ydw	Ddim yn gwybod
a)	Enw llawn			
b)	Unrhyw arallenwau a ddefnyddir			
c)	Cyfeiriad y brif breswylfa			
d)	Cyfeiriadau unrhyw breswylfeydd eilaidd			
e)	Rhif(au) ffôn			
f)	Cyfeiriad(au) E-bost			
g)	Enw defnyddiwr(wyr) ar-lein			
h)	Rhif(au) pasbort			
i)	Rhif(au) Cofrestru Cerbydau			
j)	Cyfrifon banc			
k)	Manylion cyflogaeth			

l)	Arall – Rhestrwch:

Esboniwch eich ateb(ion).(Uchafswm 250 o eiriau)

C25. A oes gennych unrhyw sylwadau, neu ragor o wybodaeth neu dystiolaeth i lywio unrhyw un o'r cynigion deddfwriaethol hyn ar SCPOs, neu ein Hasesiad o Effaith? (Ticiwch un.)

a)	Oes	
b)	Nac oes	

Rhowch fanylion. (uchafswm 500 o eiriau)

--

C26. Oes unrhyw ffyrdd eraill y gellir gwella neu gryfhau'r deddfwriaeth ar gyfer SCPOs? (Ticiwch un.)

a)	Oes	
b)	Nac oes	
c)	Ddim yn gwybod	

Rhowch fanylion (Uchafswm 500 o eiriau)

--

Effeithiau Cydraddoldeb

C27. A oes gennych sylwadau ynghylch y cynigion yn y ddogfen ymgynghori hon mewn perthynas ag effeithiau ar bobl ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig canlynol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010: oedran; anabledd; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd; priodas neu bartneriaeth sifil? Sut y gallai effeithiau o'r fath gael eu lliniaru? (Uchafswm 500 o eiriau)

Diolch am gymryd rhan yn yr ymgynghoriad hwn.

Manylion cyswllt a sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb erbyn 21st Mawrth 2023 am 17:00 trwy'r ffurflen ar-lein yn:
<https://www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/s/YCIQTE/>

Cwynion neu sylwadau

Os oes gennych unrhyw gŵynion neu sylwadau am y broses ymgynghori dylech gysylltu â'r Swyddfa Gartref yn y cyfeiriad canlynol:

Mailroom
Serious and Organised Crime Consultation
Public Safety Group
Home Office
2 Marsham Street
London
SW1P 4DF
United Kingdom

SeriousAndOrganisedCrimeConsultation@homeoffice.gov.uk

Copiau ychwanegol

Gellir cael copïau papur pellach o'r ymgynghoriad hwn o'r cyfeiriad hwn ac mae hefyd ar gael ar-lein yn <https://www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/s/YCIQTE/>

Gellir gofyn am fersiynau fformat amgen o'r cyhoeddiad hwn gan y Swyddfa Gartref yn y cyfeiriad uchod.

Cyhoeddi ymateb

Cyhoeddir papur yn crynhoi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn o fewn Mehefin 2023 mis. Bydd y papur ymateb ar gael ar-lein yn www.gov.uk

Grwpiau cynrychioladol

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi crynodeb o'r bobl a'r sefydliadau y maent yn eu cynrychioli pan ydynt yn ymateb.

Egwyddorion yr ymgynghoriad a nodyn diogelu data

Nodir yr egwyddorion sy'n llywodraethu adrannau'r llywodraeth a chyrrff cyhoeddus eraill wrth ymgynghori â rhanddeiliaid i ddatblygu polisi a deddfwriaeth yn y Ddogfen Canllawiau Egwyddorion Ymgynghori. Mae'r ddogfen hon i'w gweld yma: <https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance>

Y Swyddfa Gartref, 2 Marsham Street, Llundain, SW1P 4DF, yw'r rheolydd data mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth bersonol a ddarperir gennych i ni trwy eich ymatebion.

Mae eich data personol yn cael eu casglu a'u prosesu gan y Swyddfa Gartref ar sail caniatâd gwybodus a thasg gyhoeddus. Byddwn yn cadw'r data a ddarperir gennych yn ddiogel am uchafswm o 2 flynedd ar ôl y dyddiad cyhoeddi. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn Siarter Gwybodaeth Bersonol Swyddfa Gartref y Llywodraeth. Byddwn ni'n prosesu'r enwau a'r cyfeiriadau a'r cyfeiriadau e-bost a ddarperir gan ymatebwyr, a gwybodaeth am ba sefydliadau mae ymatebwyr yn perthyn iddynt, lle darperir hyn. Byddwn hefyd yn prosesu'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu mewn perthynas â'ch ymatebion. Pan ddaw'r ymgynghoriad i ben, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r pwyntiau allweddol sydd wedi eu codi ar wefan y Swyddfa Gartref. Bydd hyn yn cynnwys rhestr o'r sefydliadau a ymatebodd, ond nid enw personol, cyfeiriad, na manylion cyswllt arall unrhyw unigolyn. Bydd yr holl ymatebion a data personol yn cael eu prosesu wrth gydymffurfio â Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU. Os ydych chi am i rywfaint neu'r cyfan o'r wybodaeth rydych chi'n ei darparu gael ei thrin fel rhywbeth cyfrinachol, byddai'n ddefnyddiol pe gallech nodi'r wybodaeth berthnasol yn glir ac esbonio pam rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol yn eich ymateb.

Noder y gall fod yn ofynnol o dan y gyfraith i ni gyhoeddi neu ddatgelu gwybodaeth a ddarperir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn unol â chyfundrefnau mynediad at wybodaeth: yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 2018 a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU. Os byddwn yn derbyn unrhyw gais i ddatgelu'r wybodaeth hon, byddwn yn rhoi ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd pendant i chi na fydd datgelu'n cael ei wneud. Ni fyddwn yn ystyried ymwadiad awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG fel cais perthnasol at y dibenion hyn. Ar ôl i chi gyflwyno eich ymateb i'r ymgynghoriad ni fyddwch yn gallu tynnu eich atebion o'r cam dadansoddi. Fodd bynnag, o dan Ddeddf Diogelu Data 2018 (a Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU), mae gennych chi hawliau penodol i gyrchu eich data personol a threfnu iddynt gael eu cywiro neu ddileu (o dan amgylchiadau penodol), a gallwch dynnu eich caniatâd yn ôl i ni brosesu eich data personol ar unrhyw adeg.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses ymgynghori neu bryderon am y ffordd y mae'r ymchwil hon yn cael ei chynnal, neu os oes angen unrhyw eglurhad pellach ynghylch sut rydym yn prosesu'r canfyddiadau, cysylltwch â Josephine Mackinnon yn y lle cyntaf yn Josephine.mackinnon2@homeoffice.gov.uk

Mae gennych hawl i gyflwyno cwyn naill ai drwy'r Swyddfa Diogelu Data'r Swyddfa Gartref yn DPO@homeoffice.gov.uk, Cyfeiriad: Swyddfa'r DPO, Y Swyddfa Gartref, Adeilad Peel, 2 Stryd Marsham Llundain SW1P 4DF neu gallwch wneud eich cwyn yn uniongyrchol i'r

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn ICO, Office Wycliffe House Water Lane Wilmslow
Swydd Gaer SK9 5AF neu fel arall gallwch ffonio 0303 123 1113.



© Hawlfraint y Goron 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi'i drwyddedu dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored v3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.homeofficesurveys.homeoffice.gov.uk/s/YCIQTE/

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r cyhoeddiad hwn atom yn SeriousAndOrganisedCrimeConsultation@homeoffice.gov.uk